# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2027

# *'Peidiwch ag ofni'*



*'Do not be afraid'*

churches together
IN BRITAIN AND IRELAND©

**WEEK OF PRAYER FOR CHRISTIAN UNITY**

**18-25 IONAWR 2027**

www.ctbi.org.uk/weekofprayer



Paratowyd adnoddau'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni yn erbyn cefndir o ansefydlogrwydd parhaus mewn cysylltiadau rhyngwladol, gwleidyddiaeth genedlaethol a chysylltiadau cymunedol lleol. Roedd yr ymdeimlad o ansicrwydd mor ddwfn a hydreiddiol fel ei bod yn ymddangos yn dasg ofer hyd yn oed ceisio rhagweld sut y gallai'r sefyllfa fod wedi newid erbyn i Gristnogion ledled y byd ddod i ymwneud â'r deunyddiau rai misoedd yn ddiweddarach.

Yng nghanol yr ansefydlogrwydd, yr ansicrwydd a'r ofn hwnnw ynghylch y dyfodol, ceisiodd cynrychiolwyr eglwysi Iwerddon ein dwyn yn ôl at wirioneddau dyfnach ein ffydd gyda'r thema, 'Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan,' o Luc 12:22-34. Mewn cyfnodau o fygythiad a heriau, nid yn unig y cawn ein hatgoffa bod cariad a gofal Duw amdanom yn aros yr un ac yn ddigyfnewid, ond hefyd gall gwirionedd y cariad hwnnw deimlo'n fwy real a phresennol wrth i ni ganfod lloches yn ein ffydd.

Mae eglwysi Iwerddon yn ysgrifennu o brofiad byw o gydgerdded â phobl drwy loes gwrthdaro, colled ac anobaith. Mae'r daith y bu cymunedau Cristnogol yn Iwerddon arni gyda'i gilydd wedi eu dwyn i fangre edifeirwch am yr adegau pan oedd diffyg cydsefyll ac undod ymhlith Cristnogion yn hybu gwrthdaro ac yn gwaethygu'r boen a achosodd hynny. Mae'r eglwysi hefyd yn tystio i'r gobaith sy'n blaguro pan fo Cristnogion yn tystio ar y cyd i rodd cymod, gan rannu hynny mewn ysbryd gostyngedig o ddeialog â'r gymdeithas ehangach.

# Welcome



This year's Week of Prayer for Christian Unity resources were prepared against a backdrop of continued instability in international relations, national politics and local community relations. So deep and pervasive was the sense of uncertainty that it seemed futile to even attempt to predict how the situation might have changed by the time Christians around the world would come to engage with the material some months later.

In the midst of this instability, uncertainty and fear for the future, the representatives of the Irish churches sought to bring us back to the deeper truths of our faith with the theme, 'Do not be afraid little flock,' from Luke 12:22-34. We are reminded that in times of fear and trial, not only does God's love and care for us remain unchanged and unchanging, but the truth of that love can feel more real and present as we find refuge in our faith.

The Irish churches write from a place of lived experience of accompanying people through the pain of conflict, loss and hopelessness. The journey Christian communities in Ireland have been on together has brought them to a place of repentance for the times in which the absence of solidarity and unity among Christians exacerbated conflict and compounded the hurt it caused. They also bear witness to the hope that is generated by a collective Christian witness to the gift of reconciliation, offered in a humble spirit of dialogue to the wider society.

Mae agweddau unigryw i brofiad Iwerddon sy'n effeithio ar y modd mae'r eglwysi'n ymwneud â'i gilydd o fewn y cyd-destun Gwyddelig, ond yn yr adnodd hwn mae'r cyfranwyr amrywiol wedi ceisio pwysleisio'r ffyrdd ehangach y gellir cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r profiad hwnnw. Gwelwyd Cytundeb Béal Feirste / Gwener y Groglith 1998 yn briodol iawn fel arwydd gobaith i gymdeithasau mewn gwrthdaro ledled y byd. Ar yr adeg hon pan mae gwrthdaro sy'n seiliedig ar hunaniaeth yn ehangu ac yn dyfnhau, yn lleol ac yn fyd-eang, beth ellir ei ddysgu o weithredu proses heddwch amherffaith, anorffenedig yn Iwerddon? Yn benodol, beth allai'r Eglwys ei ddysgu am y cydbwysedd sydd i'w daro rhwng yr angen i gefnogi cymunedau sydd dan bwysau a'r angen i herio agweddau anghyfiawn ac ymddygiadau peryglus a niweidiol?

Daeth y profiad o seciwlareiddio i Iwerddon yn ddiweddarach nag i lawer o gyd-destunau eraill yng Ngorllewin Ewrop ac roedd yn arbennig o boenus yn sgil datgelu enghreifftiau erchyll o gam-drin yn y ddwy awdurdodaeth ar yr ynys. Mae llawer a fydd yn gyfarwydd i eraill ym mhrofiad eglwysi sy'n canfod eu hunain fwyfwy ar yr ymylon ym mywyd cymunedau ac yn yr alwad i archwilio'r cyfleoedd newydd ar gyfer tystiolaeth ac adnewyddiad ar yr ymylon.

Mae'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol yn ein hatgoffa mewn modd grymus nad ydym, beth bynnag fo'r brwydrau rydym yn eu hwynebu, ar ein pennau ein hunain, ac yn ein hannog i fyfyrio ar y nerth a allai ddod o'n cydsefyll wrth i ni fynd i'r afael â heriau sy'n gyffredin i ni.

**Y Dr Nicola Brady, Ysgrifennydd Cyffredinol,**
**Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon**



There are unique aspects to the Irish experience that impact how the churches relate in the Irish context, but in this resource the various contributors have sought to emphasise the wider applications of the learning to be gleaned from that experience. The 1998 Belfast/Good Friday Agreement has rightly been held up as a beacon of hope for societies in conflict around the world. At this time of widening and deepening identity-based conflict, locally and globally, what can be learned from the ongoing engagement with an imperfect, unfinished peace in Ireland? In particular, what might be the learning for the Church about the balance to be struck between the need to support struggling communities and the need to challenge unjust attitudes and dangerous and damaging behaviours?

The experience of secularisation came later to Ireland than to many other Western European contexts and was particularly painful in the context of horrific revelations of abuse in both jurisdictions on the island. There is much that will resonate with others in the experience of churches finding themselves increasingly marginalised in the life of communities and the call to explore the new opportunities for witness and renewal for the margins.

The Week of Prayer for Christian Unity brings a powerful reminder that, whatever our struggles, we are not alone, and an encouragement to reflect on the strength we can draw from our fellowship as we face shared challenges.

**Dr Nicola Brady,**
**General Secretary,**
**Churches Together in Britain and Ireland**





Cafodd y gweddïau a'r myfyrdodau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni eu paratoi gan gynrychiolwyr yr eglwysi yn Iwerddon. Er bod ynys Iwerddon wedi'i rhannu rhwng dwy awdurdodaeth wleidyddol, mae'r eglwysi a gynrychiolir gan Gyngor Eglwysi Iwerddon a Chynhadledd Esgobion Catholig Iwerddon wedi'u trefnu ar sail yr ynys gyfan. Mae arweinwyr yr eglwysi yn cyfarfod yn rheolaidd ac, fel Grŵp Arweinwyr Eglwysig, yn ymgysylltu â llywodraethau, cyrff cyhoeddus a chymunedau er mwyn dod â llais yr efengyl i'r drafodaeth gyhoeddus gyffredin.

Iesu yw ein Bugail Da, yr un y gellir ymddiried ynddo i'n harwain ar lwybr da bywyd tuag at raeadrau dyfroedd bywiol . Fel y Bugail Da, gwelir yn Iesu'r arweinyddiaeth aberthol sy'n ceisio'r un ddafad a aeth ar gyfrgoll. Yn Luc 12:22-34, mae Iesu'n galw ei ddilynwyr allan o ormes ofn a thuag at y bywyd hwnnw o ymddiriedaeth ddofn, gobaith effro a gwasanaeth cyfrifol. Ni fwriedir dysgeidiaeth Iesu yma ar gyfer disgyblion unigol ond ar gyfer cymuned a alwyd ynghyd: y 'praidd bychan' y mae ei aelodau wedi'u galw i fyw, gweddïo a gweithio gyda'i gilydd. Mae'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni yn ein gwahodd i archwilio beth mae'n ei olygu i fod yn ddilynwyr y Bugail Da: sut mae ymryddhau oddi wrth ofn a bod yn wyliadwrus ein calonnau'n dod yn gatalyddion pwerus ar gyfer cymod a chyd-dystiolaethu.

**Y cyd-destun lleol yn Iwerddon: y cyfle o fod ar y cyrion**

Ar ôl bod ar un adeg yn gyfystyr â hunaniaeth Wyddelig, mae Cristnogaeth yn bodoli fwyfwy fel presenoldeb llai a mwy ymylol mewn cymdeithas sy'n seciwlareiddio yn gyflym. Ymhell o fod yn arwyddo cwymp i amherthnasedd, mae'r newid hwn yn esgor ar gyfleoedd newydd ar gyfer myfyrio, adnewyddu a chymodi. Mae'r eglwysi yn parhau'n ymrwymedig i fod yn dystiolaeth fyw ledled ynys Iwerddon. Yn ysbryd geiriau cysurlon Crist i'r 'praidd bychan' (Luc 12:32),



The prayers and reflections for this year's Week of Prayer for Christian Unity have been prepared by representatives of the churches in Ireland. Although the island of Ireland is divided between two political jurisdictions [1], the churches represented by the Irish Council of Churches and the Irish Catholic Bishops' Conference are organised on an all-island basis. The leaders of the churches meet regularly and, as a Church Leaders Group, engage with governments, public bodies and communities in order to bring the voice of the gospel into shared public discourse.

Jesus is our Good Shepherd, the one who can be trusted to lead us on the good path of life towards lifegiving waters of abundance. As the Good Shepherd, Jesus models sacrificial leadership that moves towards the one sheep that has lost its way. In Luke 12:22-34, Jesus calls his followers out of fear and towards this life of radical trust, vigilant hope and responsible service. These teachings aren't meant for lone disciples but for a gathered community: a 'little flock' called to live, pray and work together. This year's Week of Prayer for Christian Unity invites us to explore what it means to be followers of the Good Shepherd: how letting go of fear and keeping watchful hearts become powerful catalysts for reconciliation and shared witness.

**Local context in Ireland: marginality as opportunity**

Once synonymous with Irish identity, Christianity increasingly exists as a somewhat smaller, more marginal presence in a rapidly secularising society. Far from signalling decline or irrelevance, this shift opens fresh opportunities for reflection, renewal and reconciliation. The churches continue to remain committed to a living witness across the island of Ireland. In the spirit of Christ's assurance to the 'little flock' (Luke 12:32),

gelwir cymuned Gristnogol Iwerddon i gofleidio ei safle o fewn cymdeithas gyda gobaith llawn ffydd a thystiolaeth unedig. Trwy gydnabod ein gwendid, ein cyfyngiadau a'n bregusrwydd, rydym yn dibynnu fwy ar Dduw ac yn profi gras trawsnewidiol.

Mae undod Cristnogol ymarferol hefyd yn dod ag iachâd i'r gymdeithas ehangach. Wrth i eglwysi weithio gyda'i gilydd i wasanaethu'r rhai sydd ar yr ymylon, maent yn tystio i werthoedd y Deyrnas fel y'u cyhoeddwyd gan Iesu. Yma mae gobaith Luc 12:32 yn dod yn ddiriaethol: mae'r 'praidd bychan', er nad yw'n uwch-ddylanwadol yn ddiwylliannol mwyach, yn gweithredu fel arwydd o'r Deyrnas – Teyrnas sydd wedi'i hadeiladu nid ar rym ond ar gariad, trugaredd a gwasanaeth. Mae'r Eglwys yn Iwerddon heddiw wedi'i chyfoethogi drwy bresenoldeb a chyfranogiad pobl o Ddwyrain Ewrop, Affrica, Asia a thu hwnt, y mae eu mynegiant amrywiol o fywyd ac addoliad yn dyfnhau ein tystiolaeth ar y cyd.

**Camu ymlaen gyda'n gilydd**

Mae galwad Duw i'r praidd bychan yn alwad at undod mewn amrywiaeth – bywyd cyffredin yng Nghrist sy'n bwrw allan ofn, ac yn golygu gwarchod ein gilydd a stiwardio rhoddion Duw gyda nod cyffredin. Yn y sefyllfa esblygol yn Iwerddon a ledled y byd, mae'r undod hwnnw'n disgleirio fwyaf pan fyddwn yn ei gofleidio nid fel unffurfiaeth, ond fel taith o wrando dwfn, tystio gostyngedig a chyd-ofalu. Er bod gwahaniaethau mewn diwinyddiaeth, cof a thraddodiad yn parhau, rydym yn cerdded ymlaen gyda'n gilydd, wedi'n cymodi ac yn hyrwyddo cymod, yn edifarhau am fethiannau'r gorffennol ac yn adnewyddu ein ffocws ar Grist, a weddïodd 'ar iddynt oll fod yn un' (Ioan 17:21). Wrth i ni gamu i'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni, bydded i ni allu cyfeirio'r byd tuag at Deyrnas trugaredd, cydwasanaethu a chariad di-sigl.

(Mae trosolwg manylach o'r testun Ysgrythurol ar gael ar wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon: https://ctbi.org.uk/wpcu2027/).

[1] Ym 1921 rhannwyd ynys Iwerddon, gan arwain at sefydlu Gogledd Iwerddon, sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig ac a lywodraethir heddiw gan Gynulliad Stormont, sy'n ddatganoledig, yn Béal Feirste, gyda gweddill yr ynys o dan awdurdodaeth Llywodraeth Iwerddon yn Nulyn.

the Irish Christian community is called to embrace its place in the public square with faith-filled hope and a united witness. By acknowledging our weakness, limitations and vulnerability, we depend more fully on God and experience transformative grace.

Christian unity in practice also brings healing to the broader society. As churches work together to serve the marginalised, they testify to the kingdom values Jesus proclaimed. Here the hope of Luke 12:32 becomes tangible: the 'little flock', while no longer culturally dominant, stands as a sign of the Kingdom – one built not on power but on love, mercy and service. Today's Irish Church is enriched through the presence and participation of people from Eastern Europe, Africa, Asia and beyond, whose diverse expressions of life and worship deepen our collective witness.

**Moving forward together**

God's call to the little flock is a call to unity in diversity – a shared life in Christ that casts out fear, watches over one another and stewards his gifts with common purpose. In Ireland's evolving landscape and across the globe, this unity shines brightest when we embrace it not as uniformity, but as a journey of deep listening, humble witness and mutual care. Though differences in theology, memory and tradition remain, we walk forward together, reconciled and reconciling, repenting of past failings and renewing our focus on Christ, who prayed 'that they may all be one' (John 17:21). As we enter this Week of Prayer for Christian Unity, may we point the world toward the Kingdom of mercy, mutual service and steadfast love.

(A more detailed overview of the biblical text is available on the CTBI website: https://ctbi.org.uk/wpcu2027/).

[1] In 1921 the island of Ireland was partitioned, resulting in the establishment of Northern Ireland, which forms part of the United Kingdom and today is governed by the devolved Stormont Assembly in Belfast, with the rest of the island under the jurisdiction of the Irish Government in Dublin.

# *Diwrnod 1*

## *Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf*

'Am hynny rwy'n dweud wrthych, peidiwch â phryderu am eich bywyd...' (Luc 12:22)

### Salm ar gyfer y dydd: Salm 23

Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd
eisiau arnaf.
Gwna imi orwedd mewn porfeydd
breision,
a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel,
ac y mae ef yn fy adfywio.
Fe'm harwain ar hyd llwybrau
cyfiawnder
er mwyn ei enw.
Er imi gerdded trwy ddyffryn
tywyll du,
nid ofnaf unrhyw niwed,
oherwydd yr wyt ti gyda mi,
a'th wialen a'th ffon
yn fy nghysuro.
Yr wyt yn arlwyo bwrdd o'm blaen
yng ngŵydd fy ngelynion;
yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew;
y mae fy nghwpan yn llawn.
Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd
yn fy nilyn
bob dydd o'm bywyd,
a byddaf yn byw yn nhŷ'r Arglwydd
weddill fy nyddiau.

### Testunau Ysgrythurol ychwanegol

Luc 12:22-34; Eseia 40:9-11;
Ioan 10:7-15

### Sylwadau

Mae'r salmydd yn cyhoeddi'n dawel hyderus bod Duw yn darparu popeth sydd ei angen arnom, hyd yn oed yn nyffrynnoedd tywyllaf bywyd, lle bydd Duw yn gydymaith ffyddlon i ni. Mae Salm 23 yn adleisio emosiynau dynol dwfn: ofn, unigedd a bregusrwydd – profiadau sy'n atseinio mewn llawer o gartrefi wrth i bobl wynebu dyfodol ansicr. Eto, fel Cristnogion ac fel yr Eglwys, fe'n gelwir i fod yn deulu gobaith, gan ymddiried yng nghariad trawsnewidiol Crist tuag at bawb. Wedi'n gwreiddio mewn ffydd ac yn sicr o ofal Duw, rydym yn edrych tuag at ddelwedd gyfarwydd y bugail tosturiol sy'n tywys ac yn amddiffyn ei braidd. Yn Iesu, y Bugail Da sy'n rhoi ei fywyd dros ei ddefaid (Ioan 10:15), canfyddwn ddewrder a thangnefedd ynghyd. Gyda bugail o'r fath, mae ofn yn ildio i obaith, ac fe'n gwahoddir i edrych tuag allan, wedi'n huno mewn nod ac mewn cariad. Oherwydd Crist sy'n ein galw ynghyd ac yn ein hatgoffa, 'Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan, oherwydd gwelodd eich Tad yn dda roi i chwi'r deyrnas' (Luc 12:32).

## Myfyrdod

'Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan.'
'Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan.'
Er i'r cysgodion ledaenu ymhell, galwa llais tyner ar y rhai blinderus.
Dros wledydd crynedig, ac ofnau'n stwyrian drwy'r tir,
mae'r weddi am undod i'w chlywed yn glir.

Wrth i ni gerdded drwy ddyffryn newid a phryder,
rydym yng ngofal Bugail y cawn ynddo dangnefedd.
Drwy diroedd dieithrwch deil gobaith yn nod,
yng nghoflaid ei gariad, ei ras ddeil ein bod.

## Gweddi

Ymrwymaf heddiw wrth fy Nuw,
a'i nerth i arwain fyth â'i law,
yn gwylio 'mhopeth drwy fy myw,
yn dirnad pob rhyw angen ddaw.
Fy Nuw yw'r athro gorau gaf,
efe yw'r ffordd, a 'nharian gref,
ei air yw sylfaen popeth wnaf
a rhoes i'm gwarchod engyl nef.

*(O Llurig Sant Padrig, cyfieithwyd o fydryddiad Cecil Frances Alexander)*

## Cwestiynau

**Personol:** Ym mha ffyrdd ydych chi wedi bod yn ymwybodol o Dduw yn cydgerdded â chi drwy ddyffryn tywyll?

**Lleol:** Sut allech chi ymuno ag eraill i greu naratif mwy gobeithiol o fewn eich ardal?

**Byd-eang:** Beth allwn ni ei gynnig, fel y gallwn fod yn rhan o weithgaredd Duw yn adfer gobaith mewn byd dan ormes ofn?

## Ewch a gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personol:** Pwy ydych chi'n eu hadnabod sy'n byw mewn ofn? Ystyriwch sut y gallech chi gydgerdded â hwy.

**Lleol:** Canfyddwch beth mae Cristnogion yn ei wneud gyda'i gilydd yn eich ardal chi i rannu gobaith Crist, ac ymunwch â'r gwaith.

**Byd-eang:** Ymunwch â Chylch Gweddi Cyngor Eglwysi'r Byd ac ymrwymwch i weddïo'n rheolaidd dros eich cymdogion ac i ddod i'w deall yn well: https://www.oikoumene.org/resources/prayer-cycle

# The Lord is my shepherd; I shall not want

'Therefore, I tell you do not worry about your life' (Luke 12:22)

## Psalm for the day: Psalm 23

The LORD is my shepherd; I shall
not want.
He makes me lie down in green
pastures;
he leads me beside still waters;
he restores my soul.
He leads me in right paths
for his name's sake.
Even though I walk through the
darkest valley,
I fear no evil;
for you are with me;
your rod and your staff –
they comfort me.
You prepare a table before me
in the presence of my enemies;
you anoint my head with oil;
my cup overflows.
Surely goodness and mercy shall
follow me
all the days of my life,
and I shall dwell in the house of
the LORD
my whole life long.

## Additional Scripture passages

Luke 12:22-34; Isaiah 40:9-11;
John 10:7-15

## Commentary

The psalmist speaks with quiet confidence that God provides all we need, even in life's darkest valleys, where God is our faithful companion. Psalm 23 draws on deep human emotions: fear, isolation and vulnerability – experiences that echo in many homes as people face an uncertain future. Yet, as Christians and as the Church, we are called to be a people of hope, trusting in the transforming love of Christ for all. Rooted in faith and assured of God's care, we look to the familiar image of the compassionate shepherd who guides and protects his flock. In Jesus, the Good Shepherd who lays down his life for his sheep (John 10:15), we find both courage and peace. With such a shepherd, fear gives way to hope, and we are invited to turn outward, united in purpose and love. For it is Christ who gathers us together and reminds us, 'Do not be afraid, little flock, for it is your Father's good pleasure to give you the kingdom' (Luke 12:32).

## Reflection

‘Fear not, little flock.’
‘Fear not, little flock.’
Though the shadows stretch wide, a tender voice calls to the weary.
Across trembling lands, restless fears, shifting ground.
A prayer for unity still resounds.

As we walk through the valley of change and disquiet,
we are held by a Shepherd and in him we find peace.
Our journey of hope through the unknown we trace,
all secure in his love, our identity held by his grace.

## Prayer

I bind unto myself today,
the power of God to hold and lead,
his eye to watch, his might to stay,
his ear to hearken to my need;
the wisdom of my God to teach,
his hand to guide, his shield to ward,
the word of God to give me speech
his heavenly host to be my guard.

*(From Saint Patrick’s Breastplate, versified by Cecil Frances Alexander)*

## Questions

**Personal:** How have you been aware of God accompanying you through a dark valley?

**Local:** How might you join with others in creating a more hopeful narrative within your locality?

**Global:** What can we offer, so that we can be part of God’s work in restoring hope to a frightened world?

## Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personal:** Who do you know that is living in a place of fear? Consider how you can walk alongside them.

**Local:** Find out what Christians are doing together in your area to share Christ’s hope, and get involved.

**Global:** Join the World Council of Churches Prayer Cycle and commit to praying regularly for your neighbours and understanding them better: https://www.oikoumene.org/resources/prayer-cycle

# Diwrnod 2

## *O'r dyfnderau y gwaeddais arnat, O Arglwydd*

'Gymaint mwy gwerthfawr ydych chwi…' (Luc 12:24b)

### Salm ar gyfer y dydd: Salm 130:1-6

O'r dyfnderau y gwaeddais arnat,
   O Arglwydd.
Arglwydd, clyw fy llef;
bydded dy glustiau'n agored
i lef fy ngweddi.
Os wyt ti, Arglwydd, yn cadw cyfrif
   o gamweddau,
pwy, O Arglwydd, a all sefyll?
Ond y mae gyda thi faddeuant,
fel y cei dy ofni.
Disgwyliaf wrth yr Arglwydd;
   y mae fy enaid yn disgwyl,
a gobeithiaf yn ei air;
y mae fy enaid yn disgwyl wrth
   yr Arglwydd
yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore,
yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore.

#### Testunau Ysgrythurol ychwanegol

Luc 12:24b; Ioan 5:1-5; Marc 10:46-52

### Sylwadau

Tensiwn, chwalfa perthynas, unigedd, gwrthdaro, trais, dinistr – bydd y cyfan yn taflu cymuned i aeaf rhewllyd o alar. Nid oes neb yn 'iawn'; mae pob un ohonom yn gyfrifol. A fyddwn yn penderfynu ceisio'r fan lle mae Iesu'n mynd heibio a llefain arno o ddyfnderoedd ein loes? Rhaid i bob un gloddio gobaith er mwyn i'r llu ei rannu. Gwyddai Bartimeus, er mwyn derbyn, fod yn rhaid iddo ddadwisgo ei gynhesrwydd (ei fantell) i waeddi, 'Trugarha wrthyf!' Gwelodd Iesu ef, arhosodd a thorri i'r byw: 'Beth yr wyt ti am i mi ei wneud iti?' A dyna'r cwestiwn y mae Iesu'n ei ofyn i ni. Mae loes ymrannu Cristnogol yn fawr, mae'n ein dallu, ond os gwaeddwn, yn unigolion lawer a chymunedau ffydd lluosog, bydd Duw yn ein clywed.

### Myfyrdod

Un mwydyn ni wna
fawr ddim a barha,
er mor galed y gwaith
ni threiddia yn faith.
Ond llawer o'i fath
yn gweithio ynghyd
all ddeffro'r pridd
ac adfer byd.

## Gweddi

Cynorthwya fi i deithio'r tu hwnt
  i'r cynefin
ac i dir dieithr.
Rho i mi'r ffydd i adael yr hen lwybrau
a thorri tir newydd gyda thi.
Grist y dirgelion, ymddiriedaf ynot
i fod yn gryfach nag unrhyw storm
  o'm mewn.
Ymddiriedaf drwy'r tywyllwch,
  gan wybod
mai yn dy law di, y dydd heddiw,
  y mae f'amserau.
Cynganedda f'ysbryd â cherddoriaeth
  y nef,
a rhywfodd, gwna i'm hufudd-dod fod
  i ti o werth. Amen.

*(Ysbrydolwyd gan hanes Sant Brendan y Morwr (c. 484-577))*

## Cwestiynau

**Personol:** Pan fo pethau'n mynd yn wael, ydych chi'n ceisio cysur a ffydd oddi wrth yr Arglwydd sy'n cynnal pob peth, ynteu a ydych chi'n parhau yng nghoflaid galar?

**Lleol:** A allwch chi adnabod unrhyw loes bersonol ynoch chi eich hun ac eraill o'ch cwmpas, sy'n deillio o'ch profiad o ddiffyg undod?

**Byd-eang:** Wrth i chi edrych ar ein byd, beth allwch chi ei nodi a'i enwi fel cost diffyg undod?

## Ewch a gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personol:** Fel y gadawodd Bartimeus ei fantell i gyd-deithio â Iesu, ystyriwch pa ddillad allech chi eu rhoi i fanc dillad lleol.

**Lleol:** Ar ôl enwi'r diffyg undod o'n cwmpas, nodwch bont sydd angen ei hadeiladu. Cymrwch y camau cyntaf tuag at gyflawni hynny.

**Byd-eang:** Cysylltwch ag elusen sy'n gweithio gyda phobl sydd â nam ar eu golwg. (Er enghraifft: https://www.sightsavers.org/about-us/)

# Out of the depths I cry to you, O Lord

'Of how much more value are you…' (Luke 12:24b)

## Psalm for the day: Psalm 130:1-6

Out of the depths I cry to you,
O LORD.
Lord, hear my voice!
Let your ears be attentive
to the voice of my supplications!
If you, O LORD, should mark
iniquities,
Lord, who could stand?
But there is forgiveness with you,
so that you may be revered.
I wait for the LORD, my soul waits,
in his word I hope;
my soul waits for the Lord
more than those who watch for the
morning,
more than those who watch for the
morning.

### Additional Scripture passages

Luke 12:24b; John 5:1-5;
Mark 10:46-52

## Commentary

Tension, relationship breakdown, isolation, friction, violence, destruction – all will catapult a community into a frozen winter of lament. No one is 'right'; each of us bears responsibility. Will we determine to seek out the place of Jesus' passing and cry out to him from the depths of our pain? Hope must be mined by each for it to be shared by the many. Bartimaeus knew that to receive he must divest himself from warmth (his cloak) to cry, 'Have mercy on me!' Jesus saw him, stopped and cut to the quick: 'What do you want me to do for you?' And that is the question Jesus asks us. The pain of Christian division is great, it blinds us, but if we cry out as many individuals and faith communities, God will hear us.

## Reflection

A solitary worm
in soil will squirm,
for it can scarcely cope
despite hard work.
But soil recharged
with clew askew,
like heroes will
the earth renew.

## Prayer

Help me to journey beyond
the familiar
and into the unknown.
Give me the faith to leave old ways
and break fresh ground with you.
Christ of the mysteries, I trust you
to be stronger than each storm
within me.
I will trust in the darkness and know
that my times, even now, are in
your hand.
Tune my spirit to the music of heaven,
and somehow, make my obedience
count for you. Amen.

*(Inspired by the story of Saint Brendan the Navigator (c. 484-577))*

## Questions

**Personal:** When things are bad, do you seek comfort and faith from the Lord who holds all things, or do you remain wrapped in lament?

**Local:** Can you identify any personal pain in yourself and others around you, from your experience of disunity?

**Global:** As you look at our world, what can you identify and name as the cost of disunity?

## Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personal:** As Bartimaeus leaves his cloak behind to journey with Jesus, consider what clothing you can give to a local clothes bank.

**Local:** After naming disunity around us, identify a bridge that needs to be built. Take the first steps in doing this.

**Global:** Connect with a charity that works with people with visual impairment. (For instance: https://www.sightsavers.org/about-us/)

# Diwrnod 3

## O ble y daw cymorth i mi?

'…lle nad yw lleidr yn dod ar y cyfyl…' (Luc 12:33)

### Salm ar gyfer y dydd: Salm 121:1-2

Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd;
o ble y daw cymorth i mi?
Daw fy nghymorth oddi wrth
yr Arglwydd,
creawdwr nefoedd a daear.

#### Testunau Ysgrythurol ychwanegol

Luc 12:33; Josua 1:7-9;
Effesiaid 6:10-17

### Sylwadau

Wrth inni droi ein llygaid tua'r dyfodol gyda phryder ynghylch mwy o bolareiddio, trais ac ymrannu, o fewn cymdeithas ac yn ein heglwysi yn ogystal, mae Salm 121 yn ein gwahodd i sylwi lle mae'r bygythiad, i gydnabod y peryglon ac i geisio cymorth gan yr Arglwydd ('creawdwr nefoedd a daear'). Gan sylwi ar dwf mudiadau asgell dde eithafol ledled y byd a lledaeniad llechwraidd cenedlaetholdeb Cristnogol, mae'n bwysig enwi'r bygythiadau hyn a tharfu ar naratifau ffug, ac mae'n hanfodol ein bod yn edrych tuag at Dduw am arweiniad a nerth. Fe'n hanogir i beidio ag ymateb mewn ofn, ond yn hytrach yn ysbryd tangnefedd a chyflawnder. Daw ein grym o fyw a gweithredu â'n gobaith ynghyd yn Nuw ac fe'n gwahoddir i gofio gwirionedd Duw – bod dewrder, nerth a grym yn cael eu rhoi, nid i orchfygu a gormesu, ond i wasanaethu a chymodi.

### Gweddi

Bydd dithau'n fflam lachar o'm blaen;
bydd dithau'n seren uwchlaw
i'm harwain;
bydd dithau'n llwybr llyfn islaw i mi;
bydd dithau'n Fugail tyner o'm cefn
heddiw, heno a hyd byth bythoedd.
Amen.

*(Priodolir i Sant Colmcille (521-597))*

## Myfyrdod

Trown i edrych ar ein sgriniau –
o ble y daw ein hofn?
O eiriau sarffaidd,
sy'n pedlera grym a chyfoeth.
Mae epil gwiberod am ein gwthio i
garu ond y rhai sy'n edrych fel ni,
am ein twyllo i greu tywysogaethau
sy'n gwasanaethu trachwant yn unig.
Ond beth welwch chi o edrych
heibio'r sgrin,
pan ddaliwch gip o'r goleuni sy'n
sleifio o'r Deyrnas arall,
pan ddadrithiwch y rhith a gadael i'r
'eto i ddod' beintio'r gwir ar gynfas
ddilychwin?

## Cwestiynau

**Personol:** Pa wahanol bethau sydd o gymorth i chi fod yn obeithiol pan fo ofn, pryder a bygythiad yn dod i'r amlwg?

**Lleol:** Pa ddarnau o'r Beibl, caneuon a straeon sydd wedi bod yn galondid i'ch cymuned drwy ddyddiau heriol yn y gorffennol? Ystyriwch rannu'r enghreifftiau a allai fod yn berthnasol heddiw.

**Byd-eang:** Gall y daith tuag at undod ymddangos yn un anodd a heriol – beth a allai fod y rhwystrau ar ein llwybr? Pa enghreifftiau o fannau eraill a allwch chi eu rhannu, gan roi gobaith a hwb i chithau ac i'ch cymuned gydweithio'n gadarnach?

## Ewch a gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personol:** Meddyliwch beth sy'n gwneud i chi ofni a chanfyddwch ffyrdd i ddeall yn ddyfnach beth sydd wir yn digwydd, gan ganiatáu amlygu gobaith Duw.

**Lleol:** Ystyriwch sut y gallech chi rannu hanesion am undod, hybu heddwch ac adeiladu Teyrnas Dduw yn eich ardal chi, hanesion na ellir eu llurgunio na'u llychwino gan sibrydion na rhagfarn.

**Byd-eang:** Ymgysylltwch â nifer o ffynonellau gwahanol i glywed hanesion o wahanol rannau o'r byd sy'n adrodd am wireddu Teyrnas Dduw, ac ystyriwch sut y gallai eich cymuned ffydd chithau ymuno â'r anturiaethau hynny.

# From where will my help come?

'… where no thief comes near …' (Luke 12:33)

## Psalm for the day: Psalm 121:1-2

I lift up my eyes to the hills –
from where will my help come?
My help comes from the LORD,
who made heaven and earth.

### Additional Scripture passages

Luke 12:33; Joshua 1:7-9;
Ephesians 6:10-17

## Commentary

As we turn our eyes towards the future with anxiety about increased polarisation, violence and division, both in society and in our churches, Psalm 121 invites us to notice where the threat is, to recognise the dangers and to seek help from the LORD ('who made heaven and earth'). In paying attention to the rise of far-right movements across the world and the concerning creep of Christian nationalism, it is important to name these threats and disrupt false narratives, and it is vital that we look to God for guidance and strength. We are encouraged not to respond from a place of fear, but from a place of peace and fullness. We are empowered to live and act in the shared hope of God and invited to remember the truth of God – that courage, strength and power are given, not to subdue and conquer, but to serve and reconcile.

## Prayer

Be thou a bright flame before me;
be thou a guiding star above me;
be thou a smooth path below me;
be thou a kindly Shepherd behind me
today, tonight and for evermore.
Amen.

*(Attributed to Saint Columba (521-597))*

## Reflection

We look to our screens –
where does our dread come from?
Fuelled by snake oil,
that peddles power and prosperity.
The brood of vipers seek to coerce us
into loving only those who look
like us,
fool us into creating principalities that
serve greed alone.
But what do you see when you look
past the screen,
when you catch the glint of light
shining in from the other Kingdom,
when you peel back the façade and
let the 'not yet' paint truth upon an
untainted canvas?

## Questions

**Personal:** What different things help you to be hopeful when fear, anxiety and threat become apparent?

**Local:** What scriptures, songs and stories have encouraged your community through challenging times in the past? Consider sharing what might be meaningful now.

**Global:** The journey towards unity might be seen as an uphill struggle – what may be the obstacles in our path? What examples from other places can you share that give hope and encourage you and your community to engage more deeply?

## Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personal:** Consider what makes you fearful and find ways to gain a deeper understanding of what is really going on, allowing for God's hope to be present.

**Local:** Explore ways of sharing local stories of unity, peacemaking and the building of God's Kingdom where you are, that cannot be tainted or tarnished by hearsay or spin.

**Global:** Engage with a number of different sources to hear stories from around the world of God's Kingdom being made real, and explore how your faith community can join in.

## DYDDIADAU

Yn draddodiadol, cedwir yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol o 18-25 Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul). Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau yn dewis adegau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig oddeutu'r Pentecost, sy'n ŵyl symbolaidd o safbwynt undod yr eglwys. Penderfynwch chi, gan gymryd sylw o ffactorau lleol. I ganiatáu eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, nodir y defnyddiau ar gyfer y Diwrnodau â'r rhifau 1-8.

## TREFN Y GWASANAETH

Gallwch dynnu allan y drefn gwasanaeth yng nghanol y llyfryn a'i llungopïo, os mynnwch. Neu gallwch lawrlwytho'r holl adnoddau oddi ar wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, ac mae croeso i chi eu golygu a'u haddasu at ddefnydd lleol. Cydnabyddwch, os gwelwch yn dda, mai ffynhonnell y deunydd yw Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, adnoddau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol.

## WAL UNDOD CRISTNOGOL

Ychwanegwch fanylion a lluniau o'ch digwyddiadau, gweddïau a negeseuon ynghylch undod ar y 'wal' undod Cristnogol yn weekofprayer.org drwy bostio i Facebook, Instagram neu X gan ddefnyddio'r hashnod #wpcuwall.

## HAWLFRAINT Y FFOTOGRAFFAU

Cafwyd yr holl ffotograffau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni o ffynonellau di-dâl. Os byddwch yn eu hailddefnyddio, gofynnwn i chi gynnwys cydnabyddiaeth fel a ganlyn:

Llun clawr, (t1 a t23): Ted Erski o Pixabay.
Croes Geltaidd (t2 a t3): Bernhard Stärck o Pixabay.
Haul dros y dŵr (t4 a t5): Chris Aram o Pixabay.
Defaid (t6 a t7): Hans o Pixabay.
Gweadwaith (t1,10-21, 23, 48-68): Christophe o Pixabay.
Haul a defaid (t24-45): Alfred Derks o Pixabay.
Mynydd (t46): yeshaya dinerstein o Pixabay.
Croes Geltaidd (t68): krystianwin o Pixabay.

# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2027

# 'Peidiwch ag ofni'




ⓗ Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon
© Churches Together in Britain and Ireland

Trefn Gwasanaeth • Order of Worship

**Week of Prayer for Christian Unity 2027** *'Do not be afraid'*



# Cyflwyniad

Eleni, paratowyd y dathliad eciwmenaidd gan dîm yn cynrychioli gwahanol draddodiadau Cristnogol yn Iwerddon, wedi'i hwyluso gan Gyngor Eglwysi Iwerddon a Chynhadledd Esgobion Catholig Iwerddon.

## Thema

Mae'r dewis o destunau Beiblaidd a litwrgaidd wedi'i ysbrydoli gan ddelwedd y 'praidd bychan' (Luc 12:32). Mae Cristnogion mewn sawl rhan o'r byd yn byw mewn sefyllfaoedd lle maent wirioneddol yn braidd bychan, ac weithiau'n braidd erlidiedig. Gwelwn ddefnyddio'r ymadrodd 'praidd Duw' yn yr Hen Destament a'r Testament Newydd i ddisgrifio pobl Dduw, sydd fel defaid dan ofal bugail. Mae'n ddelwedd sydd wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn niwylliant bugeiliol y tiroedd sy'n gefndir i'r Beibl, lle'r oedd bugeilio yn un o'r prif alwedigaethau. Mae'r ddelwedd o ofal cariadus bugail yn un sy'n sicrhau'r praidd nad oes angen iddynt ofni, ond yn hytrach y gallant ymddiried yn amddiffyniad y bugail a'i ddarpariaeth.

Ar yr adeg gythryblus ac ansicr hon, rydym yn diolch am y lloches a gawn yn ein ffydd ac am y nerth a ddaw i ni o'n cymdeithas â'n gilydd. Rydym yn herio ein hunain i wrthsefyll y demtasiwn i encilio o'r byd i geisio diogelwch. Gweddïwn am y dewrder, mewn byd rhanedig, i allu tystio'n gadarn ynghyd i gariad Duw tuag at bawb, yn enwedig y rhai sy'n dioddef o ganlyniad i anghyfiawnder, trais ac erledigaeth, yn agos atom a ledled y byd.

Gan efelychu delwedd yr haul yn codi, mae gan groesau Celtaidd Gwyddelig gylch yn eu canol, yn cynrychioli'r Crist atgyfodedig, goleuni'r byd. Fel rhan o'r addoliad, gellir darparu amlinelliadau printiedig o groes Geltaidd ar gyfer y gynulleidfa. Gellir ysgrifennu gweddïau a gofalon ar y templedi hynny a'u dwyn ymlaen i fan canolog.

Gellir rhannu'r testunau a neilltuwyd ar gyfer yr arweinydd rhwng y gwahanol leisiau o'r gwahanol draddodiadau a fydd yn bresennol. Yn yr un modd, gellir dosbarthu testunau a neilltuwyd ar gyfer darllenydd ymhlith sawl llefarydd. Gall cynrychiolwyr o'r gwahanol gymunedau sy'n bresennol gyhoeddi'r weddi glo a'r fendith ar y cyd.





# Introduction

This year the ecumenical celebration was prepared by a team representing different Christian traditions in Ireland, facilitated by the Irish Council of Churches and the Irish Catholic Bishops' Conference.

## Theme

The choice of biblical and liturgical texts is inspired by the image of the 'little flock' (Luke 12:32). Christians in many parts of the world live in situations where they are a little flock, and sometimes a persecuted flock. We find the expression 'God's flock' used in the Old and New Testaments to describe the people of God, who are like sheep under the care of a shepherd. It is an image deeply rooted in the pastoral culture of biblical lands, where shepherding was one of the principal occupations. The imagery of the loving care of a shepherd assures the flock that they need not be afraid, but can trust in his protection and provision.

In these troubled and uncertain times, we give thanks for the refuge we find in our faith and the strength we draw from our fellowship with one another. We challenge ourselves to resist the temptation to retreat from the world in search of safety. We pray for the courage to bring to our divided world a courageous collective witness to God's love for all people, especially those who suffer as a result of injustice, violence and persecution, close to home and all around the world.

Drawing on the image of the rising sun, Irish Celtic crosses have a circle at their centre, representing the risen Christ, the light of the world. During the act of worship, printed outlines of a Celtic cross may be provided for the congregation. Prayers and concerns can be written on the templates and brought forward to a central place.

The texts assigned to the leader may be divided between the various voices from the different traditions present. Likewise, texts assigned to a reader may be distributed among several persons. The concluding prayer and the blessing may be proclaimed jointly by representatives of the different communities present.





# Emyn

# Rhagarweiniad

Arweinydd — Tangnefedd a fo gyda chwi.

**Cynulleidfa** — **A hefyd gyda thithau.**

Arweinydd — Mae Crist yn ein plith.

**Cynulleidfa** — **Y mae, ac fe fydd hyd byth.**

Arweinydd — Rydym wedi dod ynghyd yn enw Crist i weddïo dros undod yr holl Gristnogion. Mae'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni yn seiliedig ar eiriau Iesu: 'Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan,' a welir yn Efengyl Luc.

Paratowyd y gwasanaeth eciwmenaidd eleni gan Gristnogion o wahanol eglwysi ledled ynys Iwerddon. Gyda hwythau, mynegwn ein diolch eu bod, ar ôl blynyddoedd o ymddieithrio, wedi dod i gydnabod mai trysor sy'n eiddo iddynt ynghyd yw'r etifeddiaeth Gristnogol a gyrhaeddodd eu gwlad gyntaf drwy Badrig Sant.

# Gweddi agoriadol

Darllenydd — Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl greadigaeth.
Bendigedig wyt ti, Iesu Grist, y Ffordd, y Gwirionedd
a'r Bywyd.
Bendigedig wyt ti, Ysbryd Glân, yr Arglwydd
a rhoddwr bywyd.
Bendigedig wyt ti, O Drindod Sanctaidd.





# Hymn

# Introduction

Leader	Peace be with you.

**Assembly	And also with you.**

Leader	Christ is among us.

**Assembly	He is and always will be.**

Leader	We are gathered in Christ's name to pray for the unity of all Christians. The Week of Prayer for Christian Unity this year is guided by the words of Jesus: 'Do not be afraid, little flock,' from a passage in Luke's Gospel.

This year's ecumenical service has been prepared by Christians from different churches across the island of Ireland. With them, we give thanks that, following many years of estrangement, they have come to know that the Christian heritage first brought to their land by Saint Patrick and other early saints is a treasure they hold in common.

# Opening prayer

Reader	Blessed are you, Lord God of all creation.
Blessed are you, Jesus Christ, the Way, the Truth and the Life.
Blessed are you, Holy Spirit, the Lord and giver of life.
Blessed are you, O Holy Trinity.





Bendigedig wyt ti yn dy saint.
Bendigedig fyddo'r cynulliad hwn wrth i ni ddod ynghyd yn dy bresenoldeb dwyfol
i gyd-ddathlu yn enw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân.

**Cynulleidfa** **Amen.**

## *Emyn*

## *Gweddi o ddiolch a galar*

Darllenydd Diolchwn am ein galw i fod yn un, *(saib byr)*
ond galarwn ein bod yn aml yn bradychu'n hundod.

**Cynulleidfa** **Grist ein bugail, gwna ni'n un praidd.**

Darllenydd Diolchwn fod gennym un Bugail, *(saib byr)*
ond galarwn ein bod yn aml yn methu cydnabod eraill fel ei eiddo yntau.

**Cynulleidfa** **Grist ein bugail, gwna ni'n un praidd.**

Darllenydd Diolchwn am i ni gael ein bedyddio i'r un ffydd, *(saib byr)*
ond galarwn ein bod yn aml yn gweithredu fel arall.

**Cynulleidfa** **Grist ein bugail, gwna ni'n un praidd.**

Darllenydd Diolchwn fod gennym un gobaith ynghyd, *(saib byr)*
ond galarwn ein bod yn aml yn allgáu eraill oddi wrtho.

**Cynulleidfa** **Grist ein bugail, gwna ni'n un praidd.**





Blessed are you in your saints.
Blessed be this gathering as we come together in your divine presence
to celebrate in the name of the Father, Son and Holy Spirit.

**Assembly** **Amen.**

## *Hymn*

## *Prayer of thanksgiving and lament*

Reader We give thanks that we are called to be one, *(brief pause)*
but we lament that we often betray our unity.

**Assembly** **Christ our Shepherd, unite us as one flock.**

Reader We give thanks that we have one Shepherd, *(brief pause)*
but we lament that we often fail to recognise others as his own.

**Assembly** **Christ our Shepherd, unite us as one flock.**

Reader We give thanks that we have been baptised into one faith,
*(brief pause)* but we lament that we often act otherwise.

**Assembly** **Christ our Shepherd, unite us as one flock.**

Reader We give thanks that we have one hope, *(brief pause)*
but we lament that we often exclude others from it.

**Assembly** **Christ our Shepherd, unite us as one flock.**



Darllenydd — Diolchwn am y cariad sy'n ein huno mewn gofal dros ein gilydd, *(saib byr)* ond galarwn ein bod yn aml yn gofalu amdanom ein hunain yn bennaf.

**Cynulleidfa — Grist ein bugail, gwna ni'n un praidd.**

# *Y Tangnefedd*

Arweinydd — Y mae pob un ohonoch sydd wedi ei fedyddio i Grist wedi gwisgo Crist amdano.

**Cynulleidfa — Alelwia!**

Arweinydd — Tangnefedd yr Arglwydd a fo bob amser gyda chwi.

**Cynulleidfa — A hefyd gyda thithau.**

# *Darlleniadau o'r Ysgrythur*

## *Y darlleniad cyntaf – Eseciel 34:15-22*

Darllenydd — Byddaf fi fy hun yn bugeilio fy nefaid ac yn gwneud iddynt orwedd, medd yr Arglwydd Dduw. Byddaf yn ceisio'r ddafad golledig ac yn dychwelyd y wasgaredig; byddaf yn rhwymo'r ddolurus ac yn cryfhau'r wan. Ond byddaf yn difa'r fras a'r gref; byddaf yn eu bugeilio â chyfiawnder.

Amdanoch chwi, fy mhraidd, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: Wele, byddaf fi'n barnu rhwng y naill ddafad a'r llall, a rhwng hyrddod a bychod. Onid yw'n ddigon ichwi bori ar borfa dda heb ichwi sathru gweddill eich porfa â'ch traed, ac yfed dŵr clir heb ichwi faeddu'r gweddill â'ch traed?



Reader — We give thanks for the love that unites us in mutual care, *(brief pause)* but we lament that we often care chiefly for ourselves.

**Assembly** — **Christ our Shepherd, unite us as one flock.**

## *The Peace*

Leader — As many as have been baptised into Christ have put on Christ.

**Assembly** — **Alleluia!**

Leader — The peace of the Lord be always with you.

**Assembly** — **And also with you.**

## *Scripture readings*

### *First reading – Ezekiel 34:15-22*

Reader — I myself will be the shepherd of my sheep, and I will make them lie down, says the Lord GOD. I will seek the lost, and I will bring back the strayed, and I will bind up the injured, and I will strengthen the weak, but the fat and the strong I will destroy. I will feed them with justice.

As for you, my flock, thus says the Lord GOD: I shall judge between sheep and sheep, between rams and goats: Is it not enough for you to feed on the good pasture, but you must tread down with your feet the rest of your pasture? When you drink of clear water, must you foul the rest with your feet?





A yw'n rhaid i'm praidd fwyta'r hyn a sathrwyd gennych, ac yfed yr hyn a faeddwyd â'ch traed?

Felly, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw wrthynt: Byddaf fi fy hunan yn barnu rhwng defaid bras a defaid tenau. Oherwydd eich bod yn gwthio ag ystlys ac ysgwydd, ac yn twlcio'r gweiniaid â'ch cyrn nes ichwi eu gyrru ar wasgar, byddaf yn gwaredu fy mhraidd, ac ni fyddant mwyach yn ysglyfaeth, a byddaf yn barnu rhwng y naill ddafad a'r llall.

## *Salm 23*

*(Gellir defnyddio fersiwn ar gân.)*

## *Darlleniad o'r efengyl – Luc 12.22-34*

Darllenydd — Efengyl Iesu Grist yn ôl Sant Luc.

**Cynulleidfa — Gogoniant i ti, Arglwydd ein Duw.**

Darllenydd — Meddai [Iesu] wrth ei ddisgyblion, 'Am hynny rwy'n dweud wrthych, peidiwch â phryderu am eich bywyd nac am eich corff, beth i'w fwyta na beth i'w wisgo. Oherwydd y mae mwy i fywyd rhywun na bwyd, a mwy i'w gorff na dillad. Ystyriwch y brain: nid ydynt yn hau nac yn medi, nid oes ganddynt ystordy nac ysgubor, ac eto y mae Duw yn eu bwydo. Gymaint mwy gwerthfawr ydych chwi na'r adar! A ph'run ohonoch a all ychwanegu munud at ei oes trwy bryderu? Felly os yw hyd yn oed y peth lleiaf y tu hwnt i'ch gallu, pam yr ydych yn pryderu am y gweddill? Ystyriwch y lili, pa fodd y maent yn tyfu: nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu; ond rwy'n dweud wrthych, nid oedd gan hyd yn oed Solomon yn ei holl ogoniant wisg i'w chymharu ag un o'r rhain. Os yw Duw yn dilladu felly y glaswellt, sydd heddiw yn y meysydd ac yfory yn cael ei daflu i'r ffwrn,





And must my sheep eat what you have trodden with your feet, and drink what you have fouled with your feet?

Therefore, thus says the Lord GOD to them: I myself will judge between the fat sheep and the lean sheep. Because you pushed with flank and shoulder, and butted at all the weak animals with your horns until you scattered them far and wide, I will save my flock, and they shall no longer be ravaged; and I will judge between sheep and sheep.

## *Psalm 23*

*(A sung version may be used.)*

## *Gospel reading – Luke 12.22-34*

Reader — The Gospel of Jesus Christ according to Luke.

**Assembly** — **Glory to you, Lord our God.**

Reader — [Jesus] said to his disciples, 'Therefore I tell you, do not worry about your life, what you will eat, or about your body, what you will wear. For life is more than food and the body more than clothing. Consider the ravens: they neither sow nor reap, they have neither storehouse nor barn, and yet God feeds them. Of how much more value are you than the birds! And can any of you by worrying add a single hour to your span of life? If then you are not able to do so small a thing as that, why do you worry about the rest? Consider the lilies, how they grow: they neither toil nor spin; yet I tell you, even Solomon in all his glory was not clothed like one of these. But if God so clothes the grass of the field, which is alive today and tomorrow is thrown into the oven,



gymaint mwy y dillada chwi, chwi o ychydig ffydd!
A chwithau, peidiwch â rhoi eich bryd ar beth i'w fwyta a beth i'w yfed, a pheidiwch â byw mewn pryder; oherwydd dyna'r holl bethau y mae cenhedloedd y byd yn eu ceisio, ond y mae gennych chwi Dad sy'n gwybod fod arnoch eu hangen. Ceisiwch yn hytrach ei deyrnas ef, a rhoir y pethau hyn yn ychwaneg i chwi.

'Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan, oherwydd gwelodd eich Tad yn dda roi i chwi'r deyrnas. Gwerthwch eich eiddo a rhowch ef yn elusen; gwnewch i chwi eich hunain byrsau nad ydynt yn treulio, trysor dihysbydd yn y nefoedd, lle nad yw lleidr yn dod ar y cyfyl, na gwyfyn yn difa. Oherwydd lle mae eich trysor, yno hefyd y bydd eich calon.'

## *Pregeth/homili*

*Cyfnod o dawelwch neu gerddoriaeth offerynnol.*

## *Gweithred symbolaidd*

*(gellir taflunio llun o'r groes Geltaidd Wyddelig ar sgrîn ar y pryd hwn.)*

Darllenydd

Gan ddynesu at Grist a'i groes, mewn gweddi ar gyfer undod Cristnogion, bydded i ni gofio, fel ei braidd bychan, nad oes angen i ni ofni. Gan efelychu delwedd yr haul yn codi, mae gan groesau Celtaidd Gwyddelig gylch yn eu canol, yn cynrychioli'r Crist atgyfodedig, goleuni'r byd.

*Gyda cherddoriaeth yn y cefndir, mae delwedd y groes Geltaidd yn cynnig canolbwynt wrth i ni weddïo ynghylch sefyllfaoedd lle mae ofn a phryder, gan erfyn am bresenoldeb y Crist atgyfodedig yno. Bydd yr arweinydd wedyn yn gwahodd aelodau'r gynulleidfa i ysgrifennu pynciau ein gweddïau ar yr amlinelliad o'r groes, a roddwyd iddynt ymlaen llaw.*



how much more will he clothe you – you of little faith! And do not keep striving for what you are to eat and what you are to drink, and do not keep worrying. For it is the nations of the world that strive after all these things, and your Father knows that you need them. Instead, strive for his kingdom, and these things will be given to you as well.

'Do not be afraid, little flock, for it is your Father's good pleasure to give you the kingdom. Sell your possessions, and give alms. Make purses for yourselves that do not wear out, an unfailing treasure in heaven, where no thief comes near and no moth destroys. For where your treasure is, there your heart will be also.'

## *Sermon/homily*

*Silence or an instrumental interlude.*

## *Symbolic action*

*(an image of the Irish Celtic cross can be projected onto a screen at this point)*

Reader — Drawn to Christ and his cross, in prayer for the unity of Christians, let us remember that as his little flock, we need not be afraid. Drawing on the image of the rising sun, Irish Celtic crosses have a circle at their centre, representing the risen Christ, the light of the world.

*While music is playing, the image of the Celtic cross provides the focus as we pray for situations of fear and anxiety, that the risen Christ would be present. The leader then invites the congregation to write on the outline of the cross (provided beforehand) the concerns of our prayers.*





# *Cyffes ffydd*

Darllenydd

Roedd Padrig, prif nawddsant Iwerddon, yn byw yn y bumed ganrif. Pan oedd yn ŵr ifanc, cafodd ei gipio i gaethwasiaeth yn Iwerddon a'i orfodi i weithio'n gofalu am braidd o ddefaid. Yn ddiweddarach, fel oedolyn, derbyniodd yr alwad i fod yn genhadwr, ac yn fuan roedd yn efengylu ac yn bugeilio praidd Duw yn y wlad lle bu gynt yn gaethwas. Clywn ei lais ef ei hun:

Darllenydd 2

'Pan oeddwn wedi cyrraedd Iwerddon ac yn gofalu am y praidd drwy gydol yr amser, roeddwn yn gweddïo yn aml bob dydd. A thyfai cariad Duw a'i ofn fwyfwy ynof, a chynyddodd fy ffydd a bywiogwyd fy ysbryd, gymaint felly fel fy mod yn gweddïo hyd at gant o weithiau yn ystod oriau'r dydd, a bron yr un mor aml yn y nos. Byddwn hyd yn oed yn aros yn y goedwig ac ar y mynydd i weddïo. A deled cenllysg, glaw neu eira, roeddwn yn codi cyn y wawr i weddïo, ac ni theimlwn unrhyw ddrygioni na diogi ysbrydol o'm mewn. Bellach rwy'n deall hyn: ar y pryd hwnnw "roedd yr Ysbryd yn danbaid" ynof.'

*(O Confessio Padrig Sant)*

Arweinydd

Wedi'n bywiogi'n ysbrydol gan gariad Duw, bydded i ni garu'n gilydd, fel y gallwn ag un meddwl gyffesu ein ffydd gyffredin:

**Cynulleidfa**

**Credwn yn un Duw,**
**Y Tad hollalluog,**
**gwneuthurwr nef a daear,**
**a phob peth gweledig ac anweledig.**
**Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist,**
**unig Fab Duw,**
**a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,**





# *Confession of faith*

Reader

Patrick, Ireland's principal patron saint, lived in the fifth century. As a youth, he was taken into slavery in Ireland and put to work tending a flock of sheep. Later, as an adult, he received the call to be a missionary, and soon he was evangelising and shepherding God's flock in the land where he had once been enslaved. We hear his own voice:

Reader 2

'When I had arrived in Ireland and was looking after the flocks the whole time, I prayed frequently each day. And more and more, the love of God and the fear of him grew in me, and my faith was increased and my spirit enlivened. So much so that I prayed up to a hundred times in the day, and almost as often at night. I even remained in the wood and on the mountain to pray. And – come hail, rain or snow – I was up before dawn to pray, and I sensed no evil nor spiritual laziness within. I now understand this: at that time "the Spirit was fervent" in me.'

*(From the Confessio of Saint Patrick)*

Leader

With our spirits enlivened by the love of God, let us love one another, so that with oneness of mind we may confess our common faith:

**Assembly**

**We believe in one God,**
**the Father, the Almighty,**
**maker of heaven and earth, of all that is, seen and unseen.**
**We believe in one Lord, Jesus Christ,**
**the only Son of God, eternally begotten of the Father,**
**Light from Light, true God from true God,**
**begotten, not made; of one Being with the Father.**





**Llewyrch o Lewyrch,**
**gwir Dduw o wir Dduw,**
**wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,**
**yn un hanfod â'r Tad,**
**a thrwyddo ef y gwnaed pob peth:**
**yr hwn er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth**
**a ddisgynnodd o'r nefoedd,**
**ac a wnaed yn gnawd trwy'r Ysbryd Glân**
**o Fair Forwyn,**
**ac a wnaethpwyd yn ddyn,**
**ac a groeshoeliwyd hefyd drosom dan Pontius Pilat.**
**Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.**
**Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,**
**ac esgynnodd i'r nef,**
**ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.**
**A daw drachefn mewn gogoniant**
**i farnu'r byw a'r meirw:**
**ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.**
**Credwn yn yr Ysbryd Glân,**
**yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,**
**sy'n deillio o'r Tad,**
**yr hwn gyda'r Tad a'r Mab**
**a gydaddolir ac a gydogoneddir,**
**ac a lefarodd trwy'r proffwydi.**
**Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig.**
**Cydnabyddwn un Bedydd er maddeuant pechodau.**
**A disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,**
**a bywyd y byd sydd i ddyfod. Amen.**

## *Gweddïau ymbil*

Darllenydd

Fugail Da,
gweddïwn dros dy Eglwys, a gynullwyd drwy dy ras haelionus.
Bydded i ni fod yn bobl sydd yn gwerthfawrogi ein gilydd,
sydd yn cofleidio amrywiaeth a dathlu ein gwahaniaethau.





**Light from Light, true God from true God,**
**begotten, not made; of one Being with the Father.**
**Through him all things were made.**
**For us all, and for our salvation**
**he came down from heaven;**
**and was incarnate of the Holy Spirit and the virgin Mary,**
**and was made human.**
**For our sake he was crucified under Pontius Pilate;**
**he suffered death and was buried.**
**On the third day he rose from the dead in accordance with the scriptures.**
**He ascended to heaven and is seated at the right hand of the Father.**
**He will come again in glory to judge the living and the dead**
**and his kingdom will have no end.**
**We believe in the Holy Spirit,**
**the Lord, the giver of life,**
**who proceeds from the Father.**
**Who, with the Father and the Son, is worshipped and glorified,**
**who has spoken through the Prophets.**
**We believe in one, holy, catholic and apostolic Church.**
**We confess one baptism for the forgiveness of sins.**
**We look forward to the resurrection of the dead,**
**and to life in the age to come. Amen.**

## *Prayers of intercession*

Reader

Good Shepherd,
we pray for your Church, gathered in your abundant grace.
May we be a people who value one another,
who embrace diversity and celebrate difference.



Bydded i'th Eglwys fod yn fan lle mai undod yw ein cyflwr naturiol.

Yn dy drugaredd,

**Cynulleidfa** **gwrando ein gweddi.**

Darllenydd Fugail Da,
gweddïwn dros dy fyd, sy'n ddibynnol ar dy gariad bywiol.
Bydded i ni fod yn bobl sy'n ymdrechu dros les pawb.
Bydded i'r rhai sy'n berchen ar rym a dylanwad weithredu gyda chyfiawnder.
Bydded i'th fyd fod yn fan lle gall bawb fyw bywyd yn ei gyflawnder.

Yn dy drugaredd,

**Cynulleidfa** **gwrando ein gweddi.**

Darllenydd Fugail Da,
gweddïwn dros bawb a erlidir o achos eu ffydd,
a'r rhai a gaiff eu targedu o achos eu hunaniaeth, eu credoau neu eu cefndir.
Bydded i ni fagu'r dewrder i herio systemau a grymoedd bygythiol.
Bydded i'n cymunedau gael eu trawsnewid gan ddyfodiad dy Deyrnas.

Yn dy drugaredd,

**Cynulleidfa** **gwrando ein gweddi.**

Darllenydd Fugail Da,
gweddïwn dros y blaned, ein cartref bregus,
gan alaru am ein hesgeulustod bwriadol.
Bydded i ni fod yn bobl sy'n gweithredu'n gyfiawn ar ran y greadigaeth gyfan.
Bydded i'r holl ddaear gael ei llenwi gan ogoniant Duw.



May your Church be a place where unity is our
natural expression.

In your mercy,

**Assembly** **hear our prayer.**

Reader Good Shepherd,
we pray for your world dependent on your life-giving love.
May we be a people who strive for the well-being of all.
May those who have power and influence act with justice.
May your world be a place where all can have fullness of life.

In your mercy,

**Assembly** **hear our prayer.**

Reader Good Shepherd,
we pray for all who are persecuted for their faith,
and those victimised because of their identity, beliefs
or background.
May we be emboldened to challenge offensive systems
and powers.
May our communities be transformed by the coming of
your Kingdom.

In your mercy,

**Assembly** **hear our prayer.**

Reader Good Shepherd,
we pray for the planet, our fragile home,
lamenting our wilful neglect.
May we be a people who act justly for the whole of creation.
May the whole earth be filled with the glory of God.





Yn dy drugaredd,

**Cynulleidfa** **gwrando ein gweddi.**

Darllenydd Fugail Da,
gweddïwn drosom ni ein hunain, sy'n sefyll yn llewyrch dy ras.
Bydded i ni gael ein llenwi â thosturi fel yr ymestynnwn at y rhai sydd mewn angen,
ac at y rhai y mae eu bywydau dan ormes cythrwfl a gwrthdaro.
Bydded i ni fod yn gyfryngau dy iachâd ar gyfer bywydau drylliedig.

Yn dy drugaredd,

**Cynulleidfa** **gwrando ein gweddi.**

Darllenydd Fugail Da,
clyw'r gweddïau rydym wedi eu hoffrymu.
Clyw hefyd y gweddïau mud a ddaw o ddyheadau ein heneidiau.
Wrth i ni dderbyn dy alwad i geisio'n gyntaf dy Deyrnas di, felly y gweddïwn,

**Cynulleidfa** **Ein Tad…**

## *Emyn*

## *Gweddi i gloi*

Arweinydd Cynnau ein lampau, ein Gwaredwr anwylaf,
fel y byddwn yn llewyrchu'n wastadol yn dy bresenoldeb
a phob amser yn derbyn goleuni oddi wrthyt ti, y Goleuni Tragwyddol,
fel y goresgynnir ein tywyllwch personol,
ac y bwrir tywyllwch y byd oddi wrthym.





In your mercy,

**Assembly** **hear our prayer.**

Reader Good Shepherd,
we pray for ourselves, standing in the light of your grace.
May we be filled with compassion to reach out to those in need,
and to those whose lives are places of turmoil and conflict.
May we bring your healing to lives of brokenness.

In your mercy,

**Assembly** **hear our prayer.**

Reader Good Shepherd,
hear the prayers that we have offered.
Hear also the unspoken prayers that come from the longings of our spirits.
As we receive your call to seek first your Kingdom, so we pray,

**Assembly** **Our Father…**

# *Hymn*

# *Concluding prayer*

Leader Kindle our lamps, Saviour most dear to us,
that we may always shine in your presence
and always receive light from you, the Light Perpetual,
so that our own personal darkness may be overcome,
and the world's darkness driven from us.





**Cynulleidfa** **Amen.**

*(Ysbrydolwyd gan bregeth o eiddo Sant Columbanus)*

# *Y Fendith*

Arweinydd Bendithied yr Arglwydd chwi a chadwed chwi;
llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnoch a thrugarhaed wrthych;
dyrchafed yr Arglwydd ei wyneb arnoch a rhodded i chwi dangnefedd.

**Cynulleidfa** **Amen.**

*(Numeri 6:24-26)*

~ · ~

**Hawlfraint y ffotograffau:**
Llun clawr, (t23): Ted Erski o Pixabay.
Gweadwaith (t23): Christophe o Pixabay.
Haul a defaid (t24-45): Alfred Derks o Pixabay.

Daw'r dyfyniadau Ysgrythurol o'r Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig, Hawlfraint ⓗ 2004 gan Gymdeithas y Beibl. Defnyddiwyd gyda chaniatâd Cymdeithas y Beibl. Cedwir pob hawl ledled y byd.





**Assembly** **Amen.**

*(Inspired by a sermon of Saint Columbanus)*

## *Blessing*

Leader The LORD bless you and keep you;
the LORD make his face to shine upon you, and be gracious to you;
the LORD lift up his countenance upon you, and give you peace.

**Assembly** **Amen.**

*(Numbers 6:24-26)*

~ · ~

**Photo copyrights:**
Cover photo, (p23): Ted Erski from Pixabay.
Texture (p23): Christophe from Pixabay.
Sun and sheep (p24-45): Alfred Derks from Pixabay.

**Bible verses** from the New Revised Standard Version Bible: Anglicized Edition, copyright 1989, 1995, Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used by permission. All rights reserved.





# DATES

The Week of Prayer for Christian Unity is traditionally observed from 18th to 25th January (the octave of St Peter and St Paul). However, some groups choose other times of the year, particularly around Pentecost which is a symbolic date for the unity of the Church. Do make your own decision, taking local factors into account. To allow for use at any time in the year, the Days material uses the notation 1-8.

# ORDER OF SERVICE

The order of service in the centre of the pamphlet can be pulled out and photocopied if you wish. Alternatively, all resources can be downloaded from the CTBI website and you are welcome to further edit or adapt them for local use. Please acknowledge the source of material as Churches Together in Britain and Ireland, Week of Prayer for Christian Unity resources.

# CHRISTIAN UNITY WALL

Please add details and photos of your events, prayers and messages of unity to the Christian unity 'wall' at weekofprayer.org by posting to Facebook, Instagram or X using the #wpcuwall hashtag. Posts appear automatically (after a slight delay).

# PHOTO CREDITS

All the photos for this year's Week of Prayer for Christian Unity have been obtained from free to use sources. If reproduced, please include a credit as below:

Cover photo, (p1 and p23): Ted Erski from Pixabay.
Celtic Cross (p2 and 3): Bernhard Stärck from Pixabay.
Sun over the water (p4 and 5): Chris Aram from Pixabay.
Sheep (p6 and 7): Hans from Pixabay.
Texture (p1, 10-21, 23, 48-68): Christophe from Pixabay.
Sun and sheep (p24-45): Alfred Derks from Pixabay.
Mountain (p46): yeshaya dinerstein from Pixabay.
Celtic Cross (p68): krystianwin from Pixabay.

# Diwrnod 4

## Y mae'r Arglwydd o amgylch ei bobl

'Os yw Duw yn dilladu felly y glaswellt…' (Luc 12:28)

### Salm ar gyfer y dydd: Salm 125:1-3

Y mae'r rhai sy'n ymddiried yn yr
Arglwydd fel Mynydd Seion,
na ellir ei symud, ond sy'n aros
hyd byth.
Fel y mae'r mynyddoedd o amgylch
Jerwsalem,
felly y mae'r Arglwydd o amgylch ei
bobl yn awr a hyd byth.
Ni chaiff teyrnwialen y drygionus
orffwys
ar y tir sy'n rhan i'r rhai cyfiawn,
rhag i'r cyfiawn estyn eu llaw at
anghyfiawnder.

#### Testunau Ysgrythurol ychwanegol

Luc 12:28; Mathew 6:25-33;
Rhufeiniaid 8:31-32

### Sylwadau

Mae delweddau'r salm hon yn ein galw i ryfeddu. Sut beth yw efelychu preswylfa Duw? Megis Mynydd Seion, a yw'r rhai sy'n ymddiried yn yr Arglwydd yn cyfodi; a ydynt yn sefyll ac yn cynnal amddiffyniad i'r rhai sy'n agored i niwed; a ydynt yn cofleidio eraill yn eu breichiau fel mae'r mynyddoedd yn amgylchynu Jerwsalem? Mae'r salm yn canu mai'r pethau hyn sy'n wirioneddol ddiysgog – cariad, cyfiawnder a gofal am ein gilydd sy'n darparu bywyd digonol i bawb sy'n trigo yng nghreadigaeth Duw. Nid oes i deyrnwialen drygioni, symbol coegwych o rym ffug a gormesol, unrhyw fan i orffwys na chuddio nac ymwreiddio yn nhir a bywydau'r rhai cyfiawn.

Yn y Llythyr at y Rhufeiniaid, cawn ein sicrhau na all dim ein gwahanu oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu; felly, dylem ymdrechu i sicrhau nad oes dim yn ein gwahanu oddi wrth ein gilydd. Gallwn, oherwydd presenoldeb yr Ysbryd Glân ynom, newid y dirwedd lle bynnag yr awn, gan chwalu rhwystrau a chanfod llwybrau at ein gilydd. Fel mae'r mynyddoedd yn amgylchynu Jerwsalem, mae cariad dihysbydd Duw, trwom ni, yn cofleidio ein cyd-ddynoliaeth. Rydym yn perthyn i'n gilydd; rydym wedi ein creu ar gyfer ein gilydd.

### Myfyrdod

Preswylfod bychan ydwyf,
ond nid o feini:
fe'm gwnaed o lwch a wnaed yn loyw,
lle'r adwaen tragwyddoldeb fy enw
gan fyw ynof.

Gan lenwi fy mhob anadliad,
a thresmasu i bob meddwl,
gan iachau'r llafnau
sy'n torri, ei lais
yn tyneru a lliniaru'r cof
hyd faddeuant.

Mae Duw yn trigo ynof,
y presenoldeb anorchfygol.
Boed i mi gredu hynny
a byw hynny
bob dydd,
wrth iddo ddysgu fy nghalon
i dorri fel ei un yntau.

## Gweddi

Crist fo gyda fi, Crist fo ynof fi,
Crist o'm cefn, a Christ o'm mlaen i,
Crist wrth f'ochr, Crist i'm hennill i,
Crist i'm cysuro ac i'm hadfer i,
Crist islaw, Crist uwchlaw i mi,
Crist tawelwch, Crist peryglon,
Crist 'nghalonnau pawb a'm câr i,
Christ yng ngenau ffrind ac estron.

*(O Llurig Sant Padrig, cyfieithwyd o fydryddiad Cecil Frances Alexander)*

## Cwestiynau

**Personol:** Ystyriwch beth sy'n eich gwahanu oddi wrth bobl eraill a meddyliwch sut y gallech fynd i'r afael â hynny.

**Lleol:** Lle yn eich cymuned mae pobl yn dod at ei gilydd, a beth sy'n eu hargyhoeddi bod croeso iddynt? Sut allai eich cymuned ffydd ddysgu oddi wrth hynny?

**Byd-eang:** Sut allai cofleidio'n cymdogion byd-eang yn ein breichiau edrych?

## Ewch a gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personol:** Myfyriwch ynghylch y mannau yn eich bywyd lle gallai heriau droi'n gyfleoedd, a rhowch un o'r cyfleoedd hynny ar waith.

**Lleol:** Gwirfoddolwch mewn digwyddiad neu gyda sefydliad lleol sy'n cynnig cysur a chymorth yn y gymuned.

**Byd-eang:** Ystyriwch sut y gallech roi, gweithredu a gweddïo gyda sefydliad datblygu rhyngwladol byd-eang. Er enghraifft, https://www.christianaid.org.uk/ neu https://cafod.org.uk

# The Lord surrounds his people

'If God so clothes the grass of the field…' (Luke 12:28)

## Psalm for the day: Psalm 125:1-3

Those who trust in the LORD are like
Mount Zion,
which cannot be moved, but abides
for ever.
As the mountains surround Jerusalem,
so the LORD surrounds his people,
from this time on and for evermore.
For the sceptre of wickedness shall
not rest
on the land allotted to the righteous,
so that the righteous may not
stretch out
their hands to do wrong.

### Additional Scripture passages

Luke 12:28; Matthew 6:25-33; Romans 8:31-32

## Commentary

The imagery in this psalm calls us to wonder. What is it like to emulate the dwelling place of God? Like Mount Zion, do those who trust in the LORD rise; do they stay and embody protection for the vulnerable; do they wrap their arms around others like the mountains surround Jerusalem? The psalm sings that this is what is truly immovable – love, justice, care for each other that provides life enough for all who dwell in God's creation. The sceptre of wickedness, a showy symbol of false and oppressive power, has no place to rest or hide or take hold in the land and lives of the righteous.

In Romans, we are assured that nothing can separate us from the love of God in Christ Jesus; therefore, we should strive to ensure that nothing separates us from each other. We, because of the Holy Spirit's presence within us, can change the landscape wherever we go, breaking down barriers and finding pathways to each other. As the mountains surround Jerusalem, God's inexhaustible love, through us, embraces our shared humanity. We belong to each other; we are made for each other.

## Reflection

I am a small dwelling,
not made of stone,
but dust made luminous,
where eternity knows my name

and lives within.

Filling my every breath,
edging into my every thought
healing the razors
that cut, his voice
softening and soothing memory
into forgiveness.

God lives in me,
presence unassailable.
May I believe it
and live it
every day,
as he teaches my heart
to break like his.

## Prayer

Christ be with me, Christ within me,
Christ behind me, Christ before me,
Christ beside me, Christ to win me,
Christ to comfort and restore me,
Christ beneath me, Christ above me,
Christ in quiet, Christ in danger,
Christ in hearts of all that love me,
Christ in mouth of friend and stranger.

*(From Saint Patrick's Breastplate, versified by Cecil Frances Alexander)*

## Questions

**Personal:** Consider what separates you from others and reflect on how you might address it.

**Local:** Where in your community do people gather, and what enables them to know they are welcome? How might your faith community learn from this?

**Global:** What might wrapping our arms around our global neighbours look like?

## Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personal:** Reflect on areas in your life where challenges may become opportunities, and act on one of those opportunities.

**Local:** Volunteer at an event or with a local organisation that offers comfort and support in the community.

**Global:** Explore how you can give, act and pray with a global international development organisation. For example https://www.christianaid.org.uk/ or https://cafod.org.uk

# Diwrnod 5

## *Y mae Arglwydd y Lluoedd gyda ni*

‘Oherwydd lle mae eich trysor…’ (Luc 12:34)

### Salm ar gyfer y dydd: Salm 46:10-11

Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi
sydd Dduw,
yn ddyrchafedig ymysg y cenhedloedd,
yn ddyrchafedig ar y ddaear.
Y mae Arglwydd y Lluoedd gyda ni,
Duw Jacob yn gaer i ni.

#### Testunau Ysgrythurol ychwanegol

Luc 12:34; Diarhebion 3:21-26;
Luc 9:1-6

### Sylwadau

Mewn cyfnodau anodd, rydym yn tueddu i deimlo bod yn rhaid i ni ‘wneud’ rhywbeth, bod angen gweithredu, ac y bydd ein ‘gwneud’ yn gwella’r sefyllfa. Fodd bynnag, yn aml iawn, y peth gorau yw ymlonyddu a dim ond ‘bod yno’, bod yn ‘bresennol’ gyda’r rhai sydd dan bwysau. Cyn llefaru, ‘Ymlonyddwch,’ mae’r salmydd yn creu darlun byw o fyd cythryblus, a all ymddangos yn or-gyfarwydd i ni heddiw. Yn aml, gallwn gael ein hysgubo i ffwrdd gan ruthr a chythrwfl popeth sy’n digwydd a chael ein twyllo i ymateb gyda gweithgaredd gorffwyll, neu gael ein parlysu gan ofn.

Serch hynny, mae Duw gyda ni, yn ffynhonnell ddihysbydd o lawenydd, ein lloches a’n nerth ynghyd. Efallai fod y salm hon a’r eiliadau nesaf hyn yn wahoddiad i chi ymlonyddu. Bod yn dawel. Bod yn bresennol ar gyfer y rhai o’ch cwmpas. Cydnabod bod yna gymuned, teulu Eglwysig ehangach, sydd wedi’u grymuso gan Iesu i fod yn esiampl o gadernid ac undod yn y byd toredig hwn.

### Myfyrdod

Dewch.
Dewch ynghyd.
Dewch, a dangosaf i chi ystyr adeiladu
rhywbeth o wir werth.
Efallai na welwch fyth gyflawniad
hynny,
ac eto,
yn y dod ynghyd,
ym mhresenoldeb eich gilydd,
yng ngofod sanctaidd ein bod,
cewch fwy na chip ar freuddwyd Duw.

## Gweddi

Bydd i mi'n obaith, o Arglwydd
fy myw;
gwag popeth arall im heblaw am
fy Nuw.
Bydd ar flaen fy meddwl bob nos a
phob dydd;
ynghwsg ac yn effro, fy ngolau
im bydd.
Bydd dithau 'noethineb, yn eirwir
bob pryd;
bydd fyth wrth fy ochr, yn
gadarn ynghyd.
Bydd Dad i mi beunydd a'th blentyn
bo fi;
Gwna 'nghorff yn breswylfa, yn un
â thydi.

*(Priodolir i Sant Dallán Forgaill (c. 530–598); cyfieithwyd o fydryddiad Eleanor Hull)*

## Cwestiynau

**Personol:** Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw...' Sut brofiad fyddai hynny i chi?

**Lleol:** Mewn cyfnod o ansicrwydd, sut allech chi ymgorffori ynghyd y cyfiawnder, y tangnefedd a'r llawenydd sy'n llifo oddi wrth Dduw, yn eich cymuned arbennig chi?

**Byd-eang:** Sut allai eich cymuned ffydd fod yn arwydd o undod mewn byd drylliedig?

## Ewch a gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personol:** Arhoswch, ymlonyddwch a meddyliwch am yr adegau hynny pan fuoch yn rhan o undod ar waith. Ystyriwch ffyrdd o ddyfnhau'r profiad hwnnw.

**Lleol:** Canfyddwch ffyrdd ystyrlon y gall eich cymuned ffydd 'ddisgwyl' gyda phobl yn eich cymuned ehangach a sefyll gyda hwy.

**Byd-eang:** Datblygwch berthynas â chymunedau Cristnogol mewn rhannau eraill o'r byd a rhannwch hanesion ynghylch y modd mae Iesu'n hybu nerth ac undod.

# The LORD Almighty is with us

'For where your treasure is…' (Luke 12:34)

## Psalm for the day: Psalm 46:10-11

'Be still, and know that I am God!
I am exalted among the nations,
I am exalted in the earth.'
The LORD of hosts is with us;
the God of Jacob is our refuge.

### Additional Scripture passages

Luke 12:34; Proverbs 3:21-26;
Luke 9:1-6

## Commentary

In times of difficulty, we tend to have a feeling that we must 'do' something, that action is required, and that our 'doing' will improve the situation. However, very often, the better thing is to stop and simply 'be there', to be 'present' with those who are under pressure. Before proclaiming, 'Be still,' the psalmist paints a vivid picture of a world in turmoil, which can seem all too familiar. We can often get swept up in the torrent and tumult of all that is happening and be fooled into responding with frenetic activity, or be frozen by fear. Nevertheless, God is with us, a perennial source of gladness, our shared space of refuge and strength. Perhaps this psalm and these moments before you are an invitation to stop. To be still. To be present to those around you. To recognise that there is a community, a wider Church family, who are empowered by Jesus to model strength and unity in this fractured world.

## Reflection

Come.
Come together.
Come, and I'll show you what it means
to build something of true worth.
You may never see the finished article,
yet,
in the act of coming together,
in the presence of one another,
in the sacred space of our being,
you have more than a glimpse of what
God is dreaming.

## Prayer

Be thou my vision, O Lord of
my heart;
Be all else but naught to me, save that
thou art.
Be thou my best thought in the day
and the night;
Both waking and sleeping, thy
presence my light.
Be thou my wisdom, be thou my
true word;
Be thou ever with me, and I with thee,
Lord.
Be thou my great Father, thy child let
me be;
Be thou in me dwelling, and I one
with thee.

*(Attributed to Saint Dallan Forgaill (c. 530–598); versified by Eleanor Hull)*

## Questions

**Personal:** 'Be still, and know that I am God!' What might this be like for you?

**Local:** In a time of insecurity, how can you embody together the justice, peace and joy that flow from God, in your particular community?

**Global:** How might your faith community model unity in a fractured world?

## Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personal:** Take time to stop, to be still and to notice meaningful moments of unity that you have been involved in. Explore some ways of deepening this experience.

**Local:** Find meaningful ways for your faith community to 'wait with' and to 'be present with' people in your community.

**Global:** Develop relationships with Christian communities around the world and share stories of how Jesus is empowering strength and unity.

# Diwrnod 6

## Gwnaeth yr Arglwydd bethau mawr i ni

‘Gwelodd eich Tad yn dda roi i chwi’r deyrnas.’
(Luc 12:32)

### Salm ar gyfer y dydd: Salm 126:1-2

Pan adferodd yr Arglwydd lwyddiant
  Seion,
yr oeddem fel rhai wedi cael iachâd;
yr oedd ein genau yn llawn chwerthin
  a’n tafodau yn bloeddio canu.
Yna fe ddywedid ymysg y cenhedloedd,
‘Gwnaeth yr Arglwydd bethau mawr
  iddynt hwy.’

#### Testunau Ysgrythurol ychwanegol

Luc 12:22-34; Eseia 35:5-7;
2 Corinthiaid 5:11-21

### Sylwadau

Mae ein darlleniadau o’r Beibl ar gyfer heddiw’n ein hysbrydoli â’r addewid bod, yn Nuw, adnewyddiad ar gael i bopeth, a hefyd yn ein hatgoffa o’n cyfrifoldeb i gyfrannu ein hunain tuag at y gwaith iachusol hwn. Yn ein cyd-destun ninnau, cofiwn fel y bu i Gytundeb Béal Feirste / Cytundeb Dydd Gwener y Groglith, a ddisgrifiwyd fel ‘cyfle gwir hanesyddol ar gyfer dechrau newydd’, drawsnewid tirwedd a pherthynas pobloedd. Lledaenodd ymdeimlad o ddiogelwch fesul tipyn a dechreuodd cyfeillgarwch newydd dyfu rhwng pobl. Bu’r gwaith anghyflawn ac amherffaith hwn dros heddwch yn gyfrwng gobaith newydd i gymunedau eraill a brofai wrthdaro, gan adfer ffydd yn y potensial ar gyfer cymod. Wrth i ni weithio i wella’r clwyfau sy’n aros ac i ymryddhau o gysgodion y gorffennol, diolchwn am y bendithion mae Duw yn eu rhoi i ni i’w rhannu.

### Myfyrdod

Aros.
Elli di ei glywed?
Nid crynu a chwymp teyrnasoedd.

Aros.
Elli di ei deimlo?
Y graean, crafiad cenhedlu perl.

Aros.
Elli di ei synhwyro?
Y distawrwydd cyn i ti anadlu,
y saib rhwng trai a llanw.

Mae ennyd mae pob un ohonom
  yn ei adnabod,
pan fydd dy Ysbryd yn ein cyffwrdd,
pan fydd dy anadl yn sibrwd â’n croen.

Gwelwn nad hyrddiad ein prysurdeb
ni yw bellach,
ond yr hiraeth am gyduno
wrth i ofod ddadebru,
i ddim ond
bod.

## Gweddi

Ni pheidiwn fyth â rhoi diolch i ti,
o Dduw,
ti sydd wedi'n cadw'n ffyddlon yn
awr temtasiwn.
Rwyt wedi ein hamddiffyn drwy ein
holl drafferthion.
Pwy ydyn ni, Arglwydd, neu beth yw
ein galwedigaeth,
fel bod dy bresenoldeb wedi bod ar
waith gyda ni drwy'r cyfan?
Molwn a mawrygwn dy enw ymhlith
y cenhedloedd,
nid yn unig ar yr adegau da ond yn
y rhai anodd hefyd,
oherwydd dangosaist i ni y gallwn
ymddiried ynot yn ddiysgog.
Ti sydd Sanctaidd, yn oes oesoedd.
Amen.

*(Addaswyd o Confessio Padrig Sant)*

## Cwestiynau

**Personol:** Lle ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch galw i gyfrannu at waith cymodi? Beth allai fod yn eich atal rhag ymateb i'r alwad honno?

**Lleol:** Lle ydych chi'n gweld yr angen mwyaf am gymodi ac iacháu perthynas yn eich cymuned leol ar hyn o bryd?

**Byd-eang:** A allwch chi feddwl am arweinwyr neu sefydliadau sy'n gweithio dros heddwch a chyfiawnder ledled y byd sy'n ysbrydoli gobaith ynoch?

## Ewch a gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personol:** Gan fyfyrio ynghylch y mannau y gobeithiwch y bydd Duw yn dod ag adfywiad ac iachâd yn eich bywyd chithau, ysgrifennwch weddi sy'n mynegi'r gobaith hwnnw.

**Lleol:** Nodwch agwedd ar waith cymodi sydd wedi ei hesgeuluso neu ei gwthio i'r cyrion yn eich cymuned eglwysig leol a gweithredwch i dynnu sylw at yr angen i adfer hynny.

**Byd-eang:** Rhannwch neges neu ddarn o newyddion gobeithiol o gyd-destun rhyngwladol arall drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu ryw ffordd arall o gyfathrebu.

when your breath clings to our skin.
We recognise that it's no longer the gust of our own busyness,
but the deep longing to join together
in the unfurling of a space,
to simply
be.

## Prayer

We will never stop giving thanks to you, O God,
who have kept us faithful in times of temptation.
You have defended us in all our difficulties.
Who are we, Lord, or what is our calling,
that you have worked with us with such divine presence?
We will praise and magnify your name among the nations,
not only in good times but in the difficult times too,
for you have shown us that we can put our trust in you without wavering.
You are the Holy One, world without end. Amen.

*(Adapted from the Confessio of Saint Patrick)*

## Questions

**Personal:** Where do you feel yourself called to contribute to the work of reconciliation? What may be holding you back from responding to that call?

**Local:** Where do you see the greatest need for reconciliation and healing of relationships in your local community at the present time?

**Global:** Can you identify leaders or organisations engaged in the work of global peace and justice that inspire you to hope?

## Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personal:** Reflecting on where you hope God will bring renewal and healing in your own life, write a prayer to express that hope.

**Local:** Identify an aspect of the work of reconciliation that has been neglected or marginalised in your local church community and take action to bring attention to this need.

**Global:** Share a hopeful message or news story from a different international context using social media or other forms of communication.

# *Gadewch inni fynd i dŷ'r Arglwydd*

'Oherwydd lle mae eich trysor, yno hefyd y bydd eich calon.'
(Luc 12:34)

## Salm ar gyfer y dydd: Salm 122

Yr oeddwn yn llawen pan
  ddywedasant wrthyf,
'Gadewch inni fynd i dŷ'r Arglwydd.'
Y mae ein traed bellach yn sefyll
o fewn dy byrth, O Jerwsalem.
Adeiladwyd Jerwsalem yn ddinas
Lle'r unir y bobl â'i gilydd.
Yno yr esgyn y llwythau,
llwythau'r Arglwydd,
fel y gorchmynnwyd i Israel,
i roi diolch i enw'r Arglwydd.
Yno y gosodwyd gorseddfeinciau barn,
gorseddfeinciau tŷ Dafydd.
Gweddïwch am heddwch i Jerwsalem,
'Bydded llwyddiant i'r rhai sy'n
  dy garu;
bydded heddwch o fewn dy furiau,
a diogelwch o fewn dy geyrydd.'
Er mwyn fy nghydnabod a'm
  cyfeillion,
dywedaf, 'Bydded heddwch i ti.'
Er mwyn tŷ yr Arglwydd ein Duw,
ceisiaf ddaioni i ti.

## Testunau Ysgrythurol ychwanegol

Luc 12:22-34; Eseia 2:1-4;
Effesiaid 4:1-6

## Sylwadau

Mae'r salmydd yn gweld dinas Jerwsalem a'r Deml o fewn y ddinas ac yn dychmygu'r daith feichus i fyny'r bryn serth nes sefyll o'r diwedd yng nghyntedd y Deml. Mae wedi dod gydag eraill o lawer o fannau i addoli gyda'i gilydd. Mae'r salmydd yn gweddïo am dangnefedd i'r rhai o'i gwmpas, pawb ohonynt wedi dod ynghyd yn enw'r Arglwydd. Anfonodd Iesu ei ddisgyblion o Jerwsalem i 'Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear' (Actau 1:8), gan ddwyn efengyl tangnefedd, y shalom hwnnw sy'n arwydd nid yn unig o absenoldeb gwrthdaro ond o gyfanrwydd, cyflawnder. Mae'r darlleniadau ychwanegol, mewn amrywiol ffyrdd, yn sôn am yr hyn y mae'n ei olygu i gerdded yng ngoleuni'r Arglwydd, i gynnal cwlwm heddwch ac i adnabod drosom ein hunain a chyda'n gilydd y tangnefedd hwnnw y deisyfodd Iesu mewn gweddi ar ein cyfer.

## Myfyrdod

Ni ddeallwn
dy dangnefedd.
Ond fe'i hadwaenwn.
A rhaid i ni ei fyw
a gadael i'w gariad
wneud ein bywydau'n gyflawn
ynghyd.

## Gweddi

Cynnau yn ein calonnau, O Dduw,
fflam y cariad nad yw'n peidio,
fel y bydd yn llosgi ynom, gan
oleuo eraill.
Bydded i ni lewyrchu hyd byth yn dy
deml sanctaidd,
wedi'n tanio â'th oleuni tragwyddol,
sef dy Fab, Iesu Grist,
ein Ceidwad a'n Prynwr. Amen.

*(Priodolir i Sant Colmcille (521-597))*

## Cwestiynau

**Personol:** Beth yw arwyddocâd addoli ein Duw ynghyd fel Cristnogion o draddodiadau gwahanol?

**Lleol:** Pa mor heriol ydi hi i chi neu eich cynulleidfa groesi trothwy eglwys cymuned Gristnogol wahanol?

**Byd-eang:** A yw heddwch wir yn bosibl yn ein byd heddiw? Beth allai sicrhau hynny?

## Ewch a gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personol:** Ymwelwch ag eglwys o draddodiad gwahanol iawn i'ch un chi (yn ddelfrydol gydag eraill o'ch eglwys chithau) a myfyriwch ynghylch y profiad.

**Lleol:** Canfyddwch grwpiau yn eich cymuned sy'n ymgyrchu dros heddwch a cheisiwch ganfod tir cyffredin rhyngoch.

**Byd-eang:** Cysylltwch ag eglwys neu gymuned ffydd sy'n byw yng nghanol gwrthdaro a ffurfiwch berthynas â hwy.

# Let us go to the house of the Lord

'For where your treasure is, there your heart will be also'
(Luke 12:34)

## Psalm for the day: Psalm 122

I was glad when they said to me,
'Let us go to the house of the LORD!'
Our feet are standing
within your gates, O Jerusalem.
Jerusalem – built as a city
that is bound firmly together.
To it the tribes go up,
the tribes of the LORD,
as was decreed for Israel,
to give thanks to the name of
the LORD.
For there the thrones for judgement
were set up,
the thrones of the house of David.
Pray for the peace of Jerusalem:
'May they prosper who love you.
Peace be within your walls,
and security within your towers.'
For the sake of my relatives
and friends
I will say, 'Peace be within you.'
For the sake of the house of the LORD
our God,
I will seek your good.

## Additional Scripture passages

Luke 12:22-34; Isaiah 2:1-4;
Ephesians 4:1-6

## Commentary

The psalmist sees the city of Jerusalem and the Temple within the city and imagines the tortuous journey up the steep hill until finally standing in the Temple court. He has come with others from many places to worship together. The psalmist prays for peace for those around him, all gathered in the name of the LORD. Jesus sent his disciples from Jerusalem to 'Judea and Samaria, and to the ends of the earth' (Acts1:8), bearing the gospel of peace, that shalom which signifies not only the absence of conflict but a wholeness, completeness. The additional readings, in varying ways, speak of what it means to walk in the light of the Lord, to maintain the bond of peace and to know for ourselves and between each other that peace which is Jesus' prayer for us.

## Reflection

We don't understand
your peace.
We just know it.
And we must live it
and let its love
make complete our lives
together.

## Prayer

Kindle in our hearts, O God,
the flame of that love which
never ceases,
that it may burn in us, giving light
to others.
May we shine forever in your
holy temple,
set on fire with your eternal light,
even your Son, Jesus Christ,
our Saviour and Redeemer. Amen.

*(Attributed to Saint Columba (521-597))*

## Questions

**Personal:** What is the significance of worshipping our God together as Christians of different traditions?

**Local:** How challenging is it for you/your congregation to cross the threshold of the church of a different Christian community?

**Global:** Is peace really possible in our world today? What would it take?

## Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personal:** Visit a church of a radically different tradition from your own (ideally with others from your church) and reflect on the experience.

**Local:** Find groups in your community that advocate for peace and seek to make common ground with them.

**Global:** Make contact with one church or other faith group living in the midst of conflict and engage with them.

# Diwrnod 8

## *Mor dda ac mor ddymunol yw i bobl fyw'n gytûn*

'Nid oedd gan hyd yn oed Solomon yn ei holl ogoniant wisg i'w chymharu ag un o'r rhain.' (Luc 12:27b)

### Salm ar gyfer y dydd: Salm 133

Mor dda ac mor ddymunol yw
i bobl fyw'n gytûn.
Y mae fel olew gwerthfawr ar y pen,
yn llifo i lawr dros y farf,
dros farf Aaron,
yn llifo i lawr dros goler ei wisgoedd.
Y mae fel gwlith Hermon
yn disgyn i lawr ar fryniau Seion.
Oherwydd yno y gorchmynnodd yr
Arglwydd ei fendith,
bywyd hyd byth.

#### Testunau Ysgrythurol ychwanegol

Genesis 50:15-21; Ioan 15:12-17; Luc 12:22-34

### Sylwadau

'Mor dda ac mor ddymunol yw i bobl fyw'n gytûn.' Ond mae ein Hysgrythurau a'n profiadau o fywyd yn ein hatgoffa bod yn rhaid i ni yn aml oresgyn ein hoffter o'n hunain er mwyn agosáu at eraill. Mae Iesu'n ymyrryd i dawelu'r dadlau ymhlith ei ddisgyblion (Luc 22:24-26), mae Paul yn ceryddu'r Cristnogion yng Nghorinth (1 Corinthiaid 3:3-9; 11:17-22) ac yn annog eraill 'i fyw'n gytûn yn yr Arglwydd' (Philipiaid 4:2).

Mae maddeuant diffuant Joseff tuag at y brodyr a'i gwerthodd i gaethiwed yn drawiadol. Er iddynt barhau i weithredu mewn ofn, ymatebodd yntau gyda chariad. Gorchfygodd undod ofn a grymuso Joseff i ymateb gyda gras, nid dialedd (Genesis 42:25).

Her a gorchymyn Iesu yw i ni garu ein gilydd, heb wahaniaethu o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, dosbarth, statws, hil nac iaith; i ni fyw ynghyd mewn undod a pharch at ein gilydd. Mae'n ein galw i oresgyn ein hoffter o'n hunain er mwyn agosáu at eraill.

### Myfyrdod

Mor dda ac mor ddymunol yw
i bobl fyw'n gytûn.
Mae fel chwerthiniad plentyn,
yn byrlymu drwy ddiniweidrwydd
dibryder.

Mae fel dagrau'r doeth,
yn llifo yng ngŵydd y prudd neu'r prydferth.
Mae fel egin breuddwyd,
yn cyniwair beth a allai fod.
Mae fel enaid yr Anfeidrol
yn blaguro ynot tithau a minnau hyd yr ymdoddwn yn un.

## Gweddi

Ni fydd yr haul a welwn yn codi beunydd ar dy orchymyn, o Grist, yn parhau,
ac ni fydd ei ogoniant yn llewyrchu'n dragywydd.
Ond tydi, Arglwydd Grist, yw y gwir Haul,
y Goleuni na fydd yn diffodd byth, yr un yr ymhyfrydwn ynddo.
Ymlawenhawn o wybod y byddwn yn codi eto yn llewyrch dy ogoniant, o Fab disglair y nef, sydd yn trigo gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn awr a hyd yn oes oesoedd. Amen.

*(Addaswyd o Confessio Padrig Sant)*

## Cwestiynau

**Personol:** Wrth i'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol ddod i ben am eleni, sut allai ein cymunedau ffydd deimlo agosatrwydd newydd?

**Lleol:** Sut allen ni fod yn llysgenhadon dros agosatrwydd yn ein cymuned ehangach?

**Byd-eang:** Sut allen ni gryfhau llais pobl yr ymylon ledled ein cymuned fyd-eang?

## Ewch a gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personol:** Ymgysylltwch â rhywun rydych wedi ymddieithrio oddi wrthynt a cheisiwch gymod.

**Lleol:** Ymchwiliwch i sefyllfa o fewn eich ardal leol lle mae yna dyndra. Canfyddwch ffyrdd o wrando'n ofalus gyda'r bwriad o ganolbwyntio ar ddeall yn fwy nag ymateb.

**Byd-eang:** Gweddïwch a gweithredwch dros heddwch mewn man anghofiedig sy'n dioddef rhyfel cartref neu wrthdaro mewnol.

# Day 8

## *How very good and pleasant it is when kindred live together in unity!*

'Even Solomon in all his glory was not clothed like one of these' (Luke 12:27b)

### Psalm for the day: Psalm 133

How very good and pleasant it is
when kindred live together in unity!
It is like the precious oil on the head,
running down upon the beard,
on the beard of Aaron,
running down over the collar of
his robes.
It is like the dew of Hermon,
which falls on the mountains of Zion.
For there the LORD ordained
his blessing,
life for evermore.

### Additional Scripture passages

Genesis 50:15-21; John 15:12-17; Luke 12:22-34

### Commentary

'How very good and pleasant it is when kindred live together in unity!' But our sacred texts and our lived experience remind us that oftentimes we have to get over ourselves to get to each other. Jesus steps in and stills the arguing of his disciples (Luke 22:24-26), Paul reprimands the Christians in Corinth (1 Corinthians 3:3-9; 11:17-22) and encourages others to be 'of the same mind in the Lord' (Philippians 4:2).

Joseph's genuine forgiveness towards the brothers who sold him into captivity is striking. Even though they continued to act from a place of fear, he responded with love. Unity overwhelmed fear and empowered him to respond with grace, not grudge (Genesis 42:25).

Jesus' challenge and command is that we love one another, without distinction of gender, sexual orientation, class, status, race or tongue; that we live together in unity and mutual respect. He calls us to get over ourselves to get to each other.

### Reflection

How very good and pleasant it is
when kindred live together in unity!
It is like the laugh of a child,
bubbling up through
unguarded innocence.

It is like the tears of the wise,
welling up wherever they find sorrow or beauty.
It is like the dream unformed,
dancing with an air of unperturbed possibility.
It is like the being of the Divine
becoming in you and me until we meld into one.

## Prayer

The sun which we see rising for us each day at your command,
O Christ, will not endure, and its splendour will not shine for ever.
But you, Lord Christ, are the true Sun,
the Light that will never perish, whom we adore.
We rejoice in the knowledge that we will rise again in the radiance of your glory, O bright heaven's Son, who abide with the Father and the Holy Spirit, now and for all the ages of ages. Amen.

*(Adapted from the Confessio of Saint Patrick)*

## Questions

**Personal:** As this Week of Prayer for Christian Unity draws to a close, how might our faith communities have a renewed sense of togetherness?

**Local:** How might we be ambassadors of togetherness in our wider community?

**Global:** How might we amplify the voice of the marginalised across our global neighbourhood?

## Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personal:** Reach out to someone you are estranged from and seek reconciliation.

**Local:** Explore a local issue where there is tension. Find ways of being intentional in your listening, focusing on understanding rather than responding.

**Global:** Pray and act for peace in an overlooked place mired in civil war or internal conflict.

# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2027



ISBN: 978-0-85169-431-3

**Gwefannau**

ctbi.org.uk/weekofprayer
weekofprayer.org

**Cyfryngau cymdeithasol**

#wpcu2027
#wpcuwall

**Cyhoeddwyd gan**

**Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon**

Interchurch House
35 Lower Marsh
Llundain SE1 7RL
info@ctbi.org.uk,
Ffôn: 0203 794 2288

Elusen gofrestredig rhif 1113299.
Cwmni cyfyngedig trwy warant,
rhif cofrestru 5661787.

**Published by**

**Churches Together in Britain and Ireland**

Interchurch House
35 Lower Marsh
London SE1 7RL
info@ctbi.org.uk,
Tel: 0203 794 2288

Registered charity no. 1113299.
Company limited by guarantee,
registered no. 5661787